# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Mawrth 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

# Hybrid

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Diwylliant a'r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd: Sesiwn dystiolaeth gydag Aelod o Bwyllgor Senedd Ewrop ar Ddiwylliant ac Addysg (6)

(09.30 - 10.15) (Tudalennau 1 - 18)

Laurence Farreng ASE, Aelod o Bwyllgor Senedd Ewrop ar Ddiwylliant ac Addysg

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

## 3 Papur(au) i'w nodi

(10.15)

### 3.1 Fframwaith Windsor a Model Gweithredu Targed y Ffin

(Tudalennau 19 - 20)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet: Model Gweithredu Targed y Ffin a Fframwaith Windsor – 13 Chwefror 2024

**3.2 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**

(Tudalennau 21 – 27)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 26 Chwefror 2024

Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 5 Mawrth 2024

Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a'r Diwydiannau Creadigol – 1 Mawrth 2024

Llythyr gan Weinidog yr Economi at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE – 4 Mawrth 2024

**3.3 Honiadau am fwlio yn S4C**

(Tudalennau 28 – 36)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd S4C: Cynllun Gweithredu S4C a Phenodi Prif Weithredwr Dros Dro – 29 Chwefror 2024

Atodiad

**3.4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**

(Tudalennau 37 – 54)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru: Pryderon ynghylch y toriadau a ragwelir i gyllidebau – 19 Chwefror 2024

Llythyr gan Lywodraeth Cymru – 1 Mawrth 2024

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru a llythyr ynghylch effaith

gostyngiadau yn y gyllideb ar gyrff hyd braich – 1 Mawrth 2024

Llythyr gan Gyngor Tref Aberystwyth: Galwad i gynyddu cyllideb y celfyddydau a diwylliant – 4 Mawrth 2024

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn sesiwn dystiolaeth ar 11 Ionawr 2024 – 5 Mawrth 2024

**3.5 Blwyddyn Cymru ac India**

(Tudalennau 55 – 57)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Prif Weinidog: Cymru yn India 2024 – 6 Mawrth 2024

**3.6 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru**

(Tudalen 58)

**Dogfennau atodol:**

Gwaith ymgysylltu rhyngwladol gan Weinidogion – Chwefror 2024

**3.7 Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru**

(Tudalennau 59 – 60)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Craffu ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus – 12 Mawrth 2024

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 5, 6, 7, 8, 10, 11 a 12 y cyfarfod hwn

(10.15)

## 5 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd: Cyflwyno canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion

(10.15 – 10.25) (Tudalennau 61 – 76)

**Dogfennau atodol:**

Canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion

## 6 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd: Trafod y dystiolaeth

(10.25 – 10.35)

**Egwyl**

(10.35 - 10.45)

## 7 Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad: Trafod yr adroddiad drafft

(10.45 - 11.15) (Tudalennau 77 - 97)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

## 8 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer haf 2024

(11.15 - 11.45) (Tudalennau 98 - 107)

**Dogfennau atodol:**

Blaenraglen waith haf 2024

Cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad undydd ar ddarpariaeth addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg

**Egwyl**

(11.45 - 12.00)

**Cyhoeddus**

## 9 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE: Sesiwn dystiolaeth gydag arbenigwyr Brexit (7)

(12.00 - 13.00)

Yr Athro Catherine Barnard, Prifysgol Caergrawnt

Dr Charlotte Faucher, Prifysgol Bryste

**Preifat**

## 10 Diwylliant a'r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd: Trafod y dystiolaeth

(13.00 - 13.10)

## 11 Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP): Dadansoddiadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

(13.10 - 13.20) (Tudalennau 108 - 124)

**Dogfennau atodol:**

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 12 Cytundebau rhyngwladol: Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu’r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol

(13.20 - 13.30) (Tudalennau 125 - 143)

**Dogfennau atodol:**

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

Llythyr gan Lywodraeth Cymru - 6 Mawrth 2024

Atodiad (Saesneg yn unig)

Llythyr gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - 8 Mawrth 2024 (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PAPUR TYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR DIWYLLIANT, CYFATHREBU, Y GYMRAEG, CHWARAEON A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL**

**Effaith ymadawiad y DU â'r UE ar y sector diwylliant.**

**Cyflwyniad**

Mae ymadawiad y DU â'r UE wedi effeithio ar bob rhan o'r sector diwylliannol.
O dan yr egwyddor 'cyllid hyd braich', mae holl gyllid Llywodraeth Cymru i'r celfyddydau yn cael ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (WAI) yw asiantaeth ryngwladol CCC. Mae WAI yn darparu cyngor a chymorth i artistiaid a sefydliadau celf yng Nghymru sy'n gweithio mewn gwledydd eraill. Mae'n bwynt cyswllt i sefydliadau ac asiantaethau artistiaid rhyngwladol sy'n gweithio yng Nghymru, neu'n cysylltu â hi.

**Effaith y berthynas newydd ar artistiaid a gweithwyr creadigol sy'n teithio ac yn gweithio ar draws ffiniau.**

A hwythau bellach heb y 'rhyddid i symud' ers i'r DU adael yr UE, mae angen i artistiaid a gweithwyr creadigol sydd am weithio yng ngwledydd yr UE ddeall y rheoliadau yn y wlad y maen nhw'n teithio iddi - o ran croesi'r ffin a fisas ac unrhyw reoliadau o ran cael gweithio sy'n berthnasol i'r hyn y maen nhw'n bwriadu ei wneud a pha mor hir y maen nhw am aros.

Mae'r sefyllfa'n gymhlethach os yw'r artist neu'r cwmni ar daith trwy fwy nag un wlad. Gall rheol ardal Schengen sy'n caniatáu i ymwelwyr aros hyd 90 diwrnod ymhob 180 diwrnod wneud pethau'n anodd i gwmnïau teithiol a gweithwyr creadigol unigol. Yn ôl WAI, mae hyn wedi effeithio'n arbennig ar y diwydiant cerddoriaeth a chriwiau o'r DU a fyddai wedi trefnu i fynd ar deithiau hir o gwmpas Ewrop.

Mae bodolaeth yr Ardal Deithio Gyffredin wedi cyfrannu rywfaint at alluogi pobl i barhau i deithio rhwng Cymru ac Iwerddon, sy'n ddefnyddiol ar gyfer prosiectau trawsffiniol yn sector y celfyddydau. Yn yr un modd, mae artistiaid a gweithwyr creadigol o'r UE sy'n dod i weithio yng Nghymru wedi gorfod deall y gofynion newydd wrth groesi'r ffin i'r DU. Mae gwyliau a lleoliadau cerdd hefyd yn gorfod eu deall. Mae'r cynlluniau Ymgysylltu â Thâl a Ganiateir, Nawdd i Weithwyr Creadigol a hefyd yn achos gwyliau, Gwyliau Heb Drwyddedau wedi bod yn llwybrau posib.

**Effaith y berthynas newydd ar artistiaid a gweithwyr creadigol Ewropeaidd sy'n teithio ac yn gweithio yng Nghymru.**

Mae WAI wedi cael gwybod gan y sector bod y baich gweinyddol ac ariannol ar y sector wedi cynyddu, yn enwedig ar unigolion a chwmnïau llai (sef yr hyn sydd gennym fwyaf yng Nghymru), oherwydd y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn a'r costau cysylltiedig. Mewn arolwg diweddar gan UK Music, dywedodd bron i un o bob tri chrëwr cerddoriaeth a ymatebodd i'r arolwg fod ymadawiad y DU â'r UE wedi effeithio ar eu henillion, a dywedodd 43% o'r rhai yr effeithiwyd arnynt nad yw'n werth iddyn nhw bellach deithio o amgylch yr UE.

Bydd y problemau hyn yn effeithio ar y cyfleoedd a'r cynigion i deithio'n rhyngwladol a ddaw i ran bandiau a cherddorion newydd, yn arbennig. Mae rhai sefydliadau a ariennir gan CCC wedi profi'u hunain y cynnydd yn y baich gweinyddol ac ariannol o deithio yn yr UE, gan gynnwys NoFit State, Hijinx a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.

Ar lefel ddiwylliannol, mae parodrwydd ymhlith unigolion a chwmnïau yng Nghymru a'r UE i barhau i gydweithio - ond teimlir a phoenir hefyd bod gweithio gyda'r DU/UE yn mynd i greu problemau.

O safbwynt ieithyddol, bu lleihad mawr yn nifer y prosiectau amlieithog sy'n dod i Gymru gyda chymorth y rhaglen Ewrop Greadigol. Mae bwlch hefyd i'r Gymraeg o ran y cymorth sydd ar gael ar gyfer cydweithio rhwng ieithoedd lleiafrifol, drwy brosiectau Cydweithredu Tiriogaethol (Interreg). Er bod ewyllys da gan ddiwylliannau lleiafrifol eraill o fewn yr UE, a chydymdeimlad tuag at iaith a diwylliant Cymru, mae'n ddrutach ac yn anoddach i'n hartistiaid fod yn rhan o brosiectau a ariennir gan yr UE.

**Y canllawiau a'r cymorth sydd ar gael i'ch sector o dan y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE.**

Ers i'r DU adael yr UE, mae nifer o lefydd yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i'r sector diwylliannol, ond mae bylchau yn y ddarpariaeth honno hefyd. Mae WAI/CCC wedi rhoi arweiniad yn y fenter Arts Infopoint UK, mewn partneriaeth â Creative Scotland, Arts Council England a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon. Mae Arts Infopoint UK wedi bod yn helpu'r sector i ddelio â rhai o'r problemau ymarferol i artistiaid - gan ganolbwyntio'n bennaf ar y rheini sy'n dod i'r DU, ond hefyd gyda'r rheini sy'n teithio i'r UE gan fod y sector wedi codi llawer o gwestiynau ymarferol.

Mae Arts Infopoint UK yn cynnig gwybodaeth ymarferol am ddim i helpu artistiaid, gweithwyr proffesiynol creadigol a sefydliadau i ddeall y rheolau a'r gofynion gweinyddol ar gyfer ymweliadau creadigol â'r DU. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod ar ffurf gweminarau a chanllawiau ar-lein. Mae rhai o'r gweminarau wedi canolbwyntio ar agweddau ymarferol fel fisas a charnets, tra bod eraill wedi edrych ar gyfleoedd cyllido rhyngwladol (e.e. cronfa Ryngwladol y Pedair Gwlad).

Mae Arts Infopoint UK yn rhan o rwydwaith ehangach o Bwyntiau Gwybodaeth ledled yr UE a thu hwnt. Mae'r grŵp hwn yn rhan o rwydwaith symudedd artistiaid On the Move, y mae WAI / CCC yn aelod ohono. Mae'r pwyntiau symudedd eraill yn darparu

gwybodaeth ymarferol i artistiaid sy'n teithio i'w gwledydd. Mae saith ohonynt yn ngwledydd yr UE. Yn benodol, mae Touring Artists in Germany a Cultuurloket yng Ngwlad Belg wedi datblygu canllawiau ac adnoddau yn benodol ar gyfer materion ar ôl Brexit.

Ochr yn ochr â hynny, mae llawer o gyrff sy'n arwain y sector yn y DU yn darparu cefnogaeth ac arweiniad penodol i'w haelodau. Mae'r diwydiant cerddoriaeth yn arbennig wedi bod ar flaen y gad yn hyn. Mae'r rhai sydd wedi datblygu adnoddau yn cynnwys Independent, Undeb y Cerddorion, Arts Admin, Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain, Outdoor Art a Help Musicians UK. Mae gan Lywodraeth y DU dudalen ar eu gwefan ar gyfer ymweld â'r DU fel gweithiwr proffesiynol creadigol.

Mae gan PEARLE (Live Performance Europe) sawl adnodd ar eu gwefan sy'n ddefnyddiol i bobl greadigol o'r DU sy'n gweithio yn yr UE. Yn gyffredinol, mae canllawiau ar gael ond, er enghraifft, nid oes Pwyntiau Gwybodaeth yn bodoli ym mhob gwlad felly gall gymryd llawer o amser i artistiaid a chwmnïau unigol ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae angen cefnogaeth, o ran y cymorth ariannol sydd ei angen i dalu costau gweinyddol ychwanegol.

**Effaith y berthynas newydd ar drefniadau masnachu sy'n ymwneud â gweithgaredd diwylliannol.**

Yn ôl WAI, mae'r trefniadau masnachu newydd gyda'r UE wedi effeithio ar y sector diwylliannol, yn enwedig ar y rhai sy'n symud nwyddau dros dro. Er enghraifft, y rheini sy'n symud setiau a phropiau theatr, offerynnau cerdd ac offer a gweithiau celf ar gyfer arddangosfeydd.

Fel arfer, lle mae nwyddau'n cael eu mewnforio/allforio dros dro ac nad ydynt yn cael eu gwerthu, nid oes angen talu tollau. Fodd bynnag, yn aml mae dryswch ynghylch y broses hon ac a oes angen carnet ATA ai peidio.

Mae'r Carnet ATA yn ddrud, ac nid yw bob amser yn berthnasol i artistiaid. Efallai na fydd artistiaid yn teimlo'n hyderus ynghylch sut i ddefnyddio carnet. Roedd y sector perfformio yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ac er ei fod yn addas ar gyfer y setiau mwy ar gyfer perfformiadau rheolaidd neu sefydliadau mwy, gwelodd cwmnïau llai nad oedd yn addas i'r diben.

Mae angen i gerddorion gofio, os ydyn nhw'n teithio gydag offeryn sy'n cynnwys deunyddiau gwarchodedig (fel ifori), y bydd angen tystysgrif CITES i groesi'r ffin rhwng yr UE a'r DU. Mae hyn yn berthnasol i bropiau a gwisgoedd hefyd.

Mae Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC wedi dweud wrth CCC bod "yn rhaid i ni neilltuo mwy o adnoddau (amser ac arbenigedd) mewn perthynas â gofynion CITES, cargo, a nwyddau. Yn yr un modd, mae costau ychwanegol ynghylch mewnforio eitemau/allforio eitemau - e.e. os ydym yn archebu offer o wledydd yr UE. Mae hyn fel arfer yn ychwanegu 20% at ein costau".

**Unrhyw newidiadau a fyddai'n gwella'r ffordd y mae perthynas newydd y DU â'r UE yn gweithio ar gyfer y sector diwylliant.**

Mae sector diwylliannol Cymru wedi bod dan anfantais aruthrol mewn sawl ffordd o ganlyniad i adael y DU. Yn lle'r symudiad di-fwlch o bobl, a'r farchnad sengl mewn gwasanaethau a nwyddau a gefnogodd y sector diwylliant yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, sefydlwyd cytundeb cyfyngedig iawn rhwng y DU a'r UE, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA). Er bod y TCA yn hanfodol i economi Cymru fel sail i Gymru (a gweddill y DU) allu masnachu nwyddau gyda'r UE, nid yw'n sail ar gyfer masnachu gwasanaethau nac yn sail i symud pobl i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu masnachu.

Mae colli'r hawl i symud yn rhydd i berfformio ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol wedi bod yn niweidiol iawn i gyfleoedd i hyrwyddo diwylliant Cymru ledled Ewrop, ac i artistiaid o'r UE ddod i Gymru. Mae llawer o gyrff sy'n arwain y sector yn y DU, yn enwedig yn y sector cerdd, wedi bod yn lobïo Llywodraeth y DU i lacio'r rheolau fisa wrth deithio yn yr UE/DU ac i leihau'r baich gweinyddol yn enwedig wrth symud nwyddau diwylliannol dros dro.

Mae adroddiadau ac argymhellion diweddar yn cynnwys Let the Music Move gan UK Music Paying the Price o'r ISM. Er bod y problemau hyn yn benodol i gerddoriaeth, maen nhw'n gyffredin i lawer o'r sector celfyddydau perfformio.

Mae Arts Infopoint UK wedi creu partneriaeth gydag On the Move ar gyfer gweminar ar brosiectau cyfnewid rhwng yr UE / DU yn y Celfyddydau Gweledol, gan arwain at bapur polisi gydag argymhellion gan yr UE.

Yn ogystal, nid yw Cymru, a hithau y tu allan i'r UE, yn gallu cael help y cronfeydd strwythurol ac Ewrop Greadigol a oedd yn fuddiol iawn i ystod osefydliadau. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, nid yw'r DU bellach yn gallu cymryd rhan yn rhaglen Ewrop Greadigol (MEDIA a Culture) a oedd wedi hwyluso partneriaethau cydgynhyrchu a chyllid Ewropeaidd gwerthfawr i gwmnïau cynhyrchu annibynnol ledled y DU i ddatblygu cynyrchiadau rhyngwladol.

Er mwyn gwrthweithio effeithiau'r ffaith nad yw cymorth Ewrop Greadigol ar gael yn y DU bellach, mae Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi The Global Screen Fund (UKGSF), a ariennir gan DCMS a'i weinyddu gan Sefydliad Ffilm Prydain (BFI). Dyluniwyd UKGSF yn benodol i helpu cynyrchiadau sgrin y DU i gystadlu'n rhyngwladol trwy gefnogi cyfleoedd datblygu, cynhyrchu, dosbarthu, hyrwyddo a chydweithredu rhyngwladol ar gyfer sector sgrin annibynnol y DU ac i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu ar draws y sector sgrin, gan gynnwys ar gyfer ffilm, teledu, dogfen, animeiddio a gemau naratif rhyngweithiol.

Fodd bynnag, er mai cylch gwaith UKGSF yw cefnogi cwmnïau annibynnol ledled y DU, a dod â budd i bob rhan o'r DU a delio â'r anghydbwysedd daearyddol o fewn y diwydiant, nid yw wedi bod mor llwyddiannus â rhaglenni MEDIA ac Ewrop Greadigol ac ychydig o ganlyniadau y mae Cymru wedi'u profi. Mae lefel siomedig o isel o ymgeiswyr o Gymru wedi elwa ar grant yr UKGSF hyd yma, o'u cymharu â'r manteision llawer mwy (a oedd yn siâr deg o'r hyn a ddyrannwyd i weddill y DU) a ddaeth i ran cwmnïau o Gymru trwy raglenni MEDIA ac Ewrop Greadigol.

Mae'n amlwg bod angen hyrwyddo'r UKGSF i wasanaethu'r holl genhedloedd a rhanbarthau yn well, yn ogystal ag archwilio rhaglenni cyd-gynhyrchu a chydweithio Ewropeaidd a Rhyngwladol newydd i annog buddsoddiad tramor yn y sector teledu a ffilm.

Mae'r DU wedi parhau i bwyso ar yr UE yn ystod y misoedd diwethaf i symleiddio'r rheolau fisa a fyddai'n gwneud teithio i'r UE yn fwy fforddiadwy a syml i weithwyr proffesiynol creadigol fel cerddorion ac artistiaid gweledol. Fodd bynnag, barn yr UE yw, fel gwlad a ddewisodd fod y tu allan i'r UE, nid oes gan y DU unrhyw sail benodol i hawlio hyblygrwydd o'r fath. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar y mater hwn ond yn realistig nid ydym yn disgwyl penderfyniad cyflym a boddhaol.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Farwnes Neville-Rolfe DBE CMG
Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet
Llywodraeth y DU

13 Chwefror 2024

Annwyl Farwnes Neville-Rolfe,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Chwefror i drafod Model Gweithredu Targed y Ffin a Fframwaith Windsor. Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich awgrym i barhau â'r ddeialog â'r Pwyllgor wrth i Fodel Gweithredu Targed y Ffin gael ei gyflwyno drwy gydol 2024 a thu hwnt. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y sesiwn yn ddefnyddiol iawn. Yn dilyn y sesiwn, roedd gan yr Aelodau ambell gwestiwn, a chytunais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gael eglurhad. Byddwn yn falch pe gallech ymateb i'r canlynol:

- Croesawodd y Pwyllgor eich datganiadau eich bod yn awyddus i leihau anghymesuredd masnach ar hyn o bryd a bod Llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Iwerddon ac awdurdodau Iwerddon i sicrhau cyn lleied o ffrithiant â phosibl ar gyfer porthladdoedd Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, a yw Llywodraeth y DU wedi trafod gyda'r UE y posibilrwydd o leihau'r rhwystrau ymhellach ar symudiadau anuniongyrchol nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon rhwng Cymru, Iwerddon a Gogledd Iwerddon?

- Gwnaethoch chi sôn yn ystod y sesiwn bod Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â sefydliadau Prydain. A fyddech yn gallu rhoi gwybod a oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi'u lleoli yng Nghymru?

- Gwnaethoch chi ddweud y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yn fuan ynglŷn â'r tâl cyffredin i ddefnyddwyr. A allech chi roi gwybod i'r Pwyllgor pryd y bydd hyn yn cael ei wneud?

- A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau rhwng y DU a'r UE ar Fframwaith Windsor a Chymru?



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn dro ar ôl tro i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Cyd-bwyllgor y DU-UE pan drafodir materion sydd â goblygiadau i borthladdoedd Cymru. A yw hwn yn fater y gellid ei adolygu yng ngoleuni'r datblygiadau a drafodwyd yn ystod y sesiwn?

- A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig ar y sgyrsiau rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys pum aelod-wladwriaeth yr UE, sef Ffrainc, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Sbaen ac Iwerddon. Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn sgyrsiau ag Iwerddon, o ystyried ein daearyddiaeth.

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gweithgareddau a amlinellwyd gennych i gasglu data newydd, ond rydym yn pryderu efallai na fydd hyn yn casglu ystadegau ynghylch faint o fusnesau a allai fod wedi rhoi'r gorau i fasnachu trawsffiniol o ganlyniad i'r drefn ar ôl Brexit. A fyddech yn gallu darparu unrhyw ystadegau ar hynny?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 3.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/54/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

26 Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu bod chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC), a oedd i fod i gael ei gynnal ar 20 Chwefror 2024, wedi'i ohirio.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi pan fydd dyddiad newydd wedi'i gadarnhau.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/72/2024
Ein cyf/Our ref CG/PO/72/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

5 Mawrth 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Yn dilyn fy llythyr ar 24 Chwefror ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, gallaf gadarnhau bod chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol wedi'i aildrefnu i'w gynnal ar 12 Mawrth 2024.

Fi fydd yn cadeirio'r cyfarfod a bydd y testunau i'w trafod yr un fath.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DB/00072/24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

1 Mawrth 2024

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn fy neges gynharach atoch ar 23 Chwefror a nododd fod bwriad i gynnal cyfarfod o'r Grŵp Rhynweinidogol ar gyfer Diwylliant a'r Diwydiannau Creadigol ar 4 Mawrth.

Yn anffodus mae'r cyfarfod wedi'i ganslo ar gais DCMS ac mae dyddiad newydd wrthi'n cael ei drefnu.

Hoffwn hefyd eich hysbysu y byddaf yn mynychu cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Chwaraeon ar 1 Mawrth yn Glasgow a gynhelir gan Lywodraeth yr Alban.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Gweinidog yr Economi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: VG-PO-068-24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

4 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am chweched cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE a gynhelir ar 06 Mawrth 2024.

Byddaf yn mynychu ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO). Bydd y cyfarfod yn gyfle pellach i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r pedair Llywodraeth mewn perthynas â Chytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE, a chysylltiadau ehangach rhwng y DU a'r UE. Dyma gyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ers ailsefydlu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

CC:

Delyth Jewell, AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.
Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
CF99 1SN

29 Chwefror 2024

**Cynllun Gweithredu S4C a Phenodiad Prif Weithredwr Dros Dro**

Annwyl Delyth,

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch eto am y cyfle i annerch y Pwyllgor ar Ddydd Iau, 11 Ionawr 2024. Rydym wastad yn ddiolchgar am ddiddordeb a chefnogaeth barhaus y Pwyllgor i S4C ac i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, hyd yn oed pan fo’r materion dan sylw yn rhai dyrys.

Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, mae un mater rwy'n teimlo dylid ei gywiro sydd yn ymwneud â'r awgrym gan un o’ch Aelodau yr oedd lefelau salwch ac absenoldeb staff S4C yn uwch na'r norm yn y cyfnod yn arwain lan at lythyr BECTU ar ddiwedd Ebrill 2023. O wirio cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Pobl a Thaliadau Bwrdd S4C a'r data a dderbyniwyd gan y Pwyllgor hwnnw yn ystod y cyfnod dan sylw, nid dyna oedd y dystiolaeth yn ei ddangos. Yn ein cyfarfod ym mis Chwefror 2023, gwnaethpwyd sylw gan un o aelodau anweithredol y Pwyllgor Pobl a Thaliadau bod y ffigurau absenoldeb drwy salwch yn ymddangos yn isel.

Rydym eisoes wedi adolygu’r modd y mae Pwyllgor Pobl a Thaliadau Bwrdd S4C yn derbyn ffigurau sydd yn ymwneud â chyflogaeth ac rydym yn ffyddiog wrth symud ymlaen y bydd y Pwyllgor hwnnw yn gallu derbyn darlun gwell o faterion staffio a’u heffaith ar y gweithlu.

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda chi ar 11 Ionawr, fe soniais y byddai Bwrdd Unedol S4C yn cwrdd er mwyn ystyried a chytuno ar gynllun gweithredu rydym ni fel sefydliad wedi ei ddatblygu mewn ymateb i Adroddiad Capital Law. Rwy’n falch o allu darparu rhagor o wybodaeth i’r Pwyllgor isod.

Bu’r ddwy flynedd ddiwethaf yn anodd i lawer o bobl sydd yn gysylltiedig ag S4C, ac yn 2023 fe gomisiynodd aelodau anweithredol Bwrdd S4C gwmni Capital Law i ymgymryd â phroses canfod ffeithiau annibynnol i ddiwylliant ac awyrgylch gwaith S4C mewn ymateb i bryderon difrifol a godwyd gan undeb BECTU.

Fel y gwyddoch, yn dilyn hyn gwnaethpwyd penderfyniadau dyrys ond unfrydol gan yr aelodau anweithredol mewn ymateb i'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Serch hyn, mae Adroddiad Capital Law yn amlygu nifer o faterion difrifol, ac mae rhai o’r rhain yn mynnu sylw o hyd.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod S4C yn fan lle mae ein cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu cefnogi a'u cymell i berfformio ar eu gorau. Rydym yn dra ymwybodol o’r angen am waith sylweddol i adfer ymddiriedaeth yn S4C fel sefydliad ymhlith ein staff a'n rhanddeiliaid yn y sector creadigol.

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi’n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.
You are welcome to contact S4C in Welsh, and if you do so we will respond in Welsh and this will not lead to any delays.

Mae ein Cynllun Gweithredu wedi ei ddatblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau staff ac undeb BECTU. Mae'n seiliedig ar bedair thema: arweinyddiaeth, diwylliant, polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol, a llywodraethiant. Rwy'n amlinellu manylion pellach ar bob thema isod.

Y Bwrdd Unedol fydd â'r cyfrifoldeb pennaf dros y Cynllun Gweithredu, gydag eitem sefydlog ym mhob cyfarfod Bwrdd i adrodd ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu unigol. Bydd effeithiolrwydd y camau a gymerir fel rhan o'r Cynllun Gweithredu yn cael ei ystyried yng nghyd-destun amrywiol ddulliau adborth, gan gynnwys: arolygon pwls staff S4C, adborth a gesglir trwy gyfarfodydd chwarterol y Fforwm Staff, a chyfarfodydd blynyddol rhwng BECTU a'r Bwrdd.

<u>Arweinyddiaeth</u>

Rydym yn ymdrechu i adfer ymddiriedaeth ymhlith ein staff, sydd yn chwarae rhan hanfodol yn nyfodol a llwyddiant S4C. Mae arweinyddiaeth wedi'i seilio ar uniondeb, atebolrwydd, cydweithredu a chyfathrebu agored yn allweddol er mwyn adeiladu dyfodol cadarnhaol.

Mae'r Bwrdd Unedol wedi ymrwymo i benodi Prif Weithredwr parhaol newydd cyn gynted ag yn ymarferol bosibl a all helpu i adfer S4C uchelgeisiol gyda ffocws o'r newydd ar gydweithio a lles ein cydweithwyr. Byddant yn gyfrifol ac yn atebol i'r Bwrdd am gyflawni ein strategaeth a gosod y sylfeini ar gyfer llwyddiant S4C i'r dyfodol.

Er mwyn sicrhau cynnydd parhaus yn y tymor byr, mae'r Bwrdd yn falch o'ch hysbysu ein bod ni'n penodi Sioned Wiliam fel Prif Weithredwr dros dro.

Mae Sioned Wiliam yn adnabyddus yn y diwydiant fel cyn-Gomisiynydd Comedi BBC Radio 4 a chyn-Bennaeth Comedi ITV. Roedd hi hefyd yn flaenorol yn gynhyrchydd rhaglenni gyda'r cwmnïau teledu Talkback a Hat Trick.

Mi fydd hi'n ymuno ag S4C yn rhan-amser fis nesaf, cyn dechrau yn y rôl yn llawn-amser fis Ebrill.

Un o brif gyfrifoldebau Sioned dros y misoedd nesaf bydd arwain ar y Cynllun Gweithredu, ac mae'r Bwrdd yn hyderus yn ei gallu i ddarparu'r arweinyddiaeth gref, greadigol a chydwybodol sydd ei hangen ar S4C dros y cyfnod hwn.

Rydym hefyd yn disgwyl cyhoeddiad gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn fuan ynghylch Cadeirydd dros dro, a fydd yn cychwyn yn y rôl honno ar 1 Ebrill 2024. Bydd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd yn cyhoeddi proses agored i benodi Cadeirydd parhaol newydd i S4C yn gydnaws â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus.

<u>Diwylliant</u>

Mae'n rhaid inni sicrhau bod staff S4C yn teimlo'n gwbl hyderus y delir ag unrhyw bryderon a godir ganddynt, ac un o'n blaenoriaethau wrth symud ymlaen yw hyrwyddo diwylliant o gyfathrebu agored i'r perwyl hwnnw.

Gan weithio'n agos gyda Thîm Rheoli S4C, bydd rhaglen yn cael ei gweithredu i sicrhau newid diwylliannol cadarnhaol lle bynnag bo'r angen o fewn ein sefydliad.

Byddwn yn adolygu pwrpas a gwerthoedd S4C, gyda mewnbwn gan staff S4C ar bob lefel o fewn y sefydliad. Byddwn hefyd yn ystyried sut rydym yn cyfathrebu ein prif amcanion i alluogi

dealltwriaeth well o’n strategaeth. Diben hyn yw sicrhau bod staff yn teimlo perchnogaeth o werthoedd y sefydliad, yn deall ein strategaeth gorfforaethol a'u rôl yn ei chyflawni.

Bydd cynllun Cyfathrebu Mewnol newydd yn cael ei ddatblygu i wella llif gwybodaeth, y berthynas rhwng gwahanol dimoedd, ac i gryfhau lleisiau ein cydweithwyr ar draws pob lefel o'r sefydliad.

Rydym yn bwriadu gweithredu rhaglen hyfforddi ar gyfer rheolwyr ar draws y sefydliad a fydd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, rheoli effeithiol, a rheoli newid mewn modd cadarnhaol. Bydd pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant allanol a fydd yn canolbwyntio ar adeiladu gwytnwch a delio â newid.

Bydd y Tîm Rheoli yn atebol i’r Bwrdd Unedol am gyflwyno’r rhaglen waith i newid y diwylliant sefydliadol, a bydd dulliau a phrosesau monitro ac adborth rheolaidd yn cael eu rhoi ar waith i ddarparu gwell syniad o forâl staff a llwyddiant y rhaglen hon.
Bydd y Bwrdd Unedol hefyd yn adolygu'r Cod Ymarfer sy'n berthnasol i holl aelodau'r Bwrdd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau a'r disgwyliadau uchaf, yn ogystal â gwerthoedd S4C.

Polisïau a Gweithdrefnau

Rydym yn glir bod yn rhaid i ddiwylliant sefydliadol cadarnhaol a pholisïau Adnoddau Dynol effeithiol fynd law-yn-llaw.

Rydym yn adolygu ein polisïau Adnoddau Dynol – gan gynnwys ar chwythu'r chwiban, cwynion, a pharch yn y gweithle – er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb ag arferion gorau.

Rydym am i staff deimlo’n ddigon cyfforddus i godi unrhyw bryderon ac yn hyderus y delir â nhw yn briodol. Byddwn yn ymdrechu i ailsefydlu ymddiriedaeth rhwng staff, rheolwyr, a'r adran Adnoddau Dynol, a byddwn yn cynnal adolygiad allanol o swyddogaethau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol S4C i sicrhau eu bod yn gydnaws ag arferion gorau.

Byddwn yn datblygu polisïau newydd lle bo’r angen, gan gynnwys polisi addas ar sut mae S4C yn ymateb i gwynion yn erbyn aelodau anweithredol y Bwrdd.

Llywodraethiant

Fel rhan o'n hymdrechion i sicrhau bod ein trefniadau llywodraethiant yn cydymffurfio ag arferion gorau, byddwn yn comisiynu adolygiad allanol o effeithiolrwydd llywodraethiant. Rydym yn disgwyl ystyriaeth o drefniadau llywodraethiant mewnol S4C - gan gynnwys y Bwrdd a'i bwyllgorau, y Tîm Rheoli, a grwpiau mewnol eraill sydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau - ac i edrych yn benodol ar atebolrwydd a chyfathrebu priodol rhwng y lefelau llywodraethiant mewnol.

Rydym yn disgwyl i ganlyniad yr adolygiad hwn arwain at ddiwygiadau i'n Rheolau Sefydlog ac felly byddwn hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i feincnodi ein Rheolau Sefydlog, gan eu cymharu ag arferion gorau mewn sefydliadau cyfatebol.

Bydd deddfwriaeth sydd i ddod ar ffurf Bil y Cyfryngau hefyd yn gofyn am ddiwygiadau i'n Rheolau Sefydlog. Er bod Awdurdod S4C wedi bod yn gweithredu fel Bwrdd Unedol Cysgodol ar sail weinyddol ers 2018, rydym yn croesawu'r sicrwydd statudol y bydd darpariaethau’r Bil yn ei chynnig o ran trefniadau llywodraethiant S4C.

Rwy’n gobeithio bod yr uchod yn crynhoi ac yn amlinellu sail resymegol y camau gweithredu gytunwyd gan y Bwrdd Unedol, ac yn cyfleu ymroddiad S4C i fynd i’r afael â phryderon a godwyd. Rwyf hefyd yn atodi copi o’r Cynllun Gweithredu, sydd wedi ei gyhoeddi ar wefan S4C.

Os oes gennych chi neu aelod arall o’r Pwyllgor unrhyw gwestiwn ynghylch y Cynllun Gweithredu neu benodiad Prif Weithredwr dros dro, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

Rhodri Williams
Cadeirydd, S4C

**Bwrdd Unedol S4C**

Rhaglen Waith: Cynllun Gweithredu S4C

29 Chwefror 2024

| | Gweithred | Dyddiadau Targed* | | Perchennog | Statws | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cychwyn | Gorffen | | | |
| | | | **ARWEINYDDIAETH** | | | |
| 1. | Penodi Prif Weithredwr dros dro. | 24/11/2023 | 29/02/2024 | Aelodau anweithredol | ✓ | Aelodau Anweithredol wedi cyhoeddi penodiad 29/02/2024. |
| 2. | Recriwtio Prif Weithredwr parhaol. | Yn ddibynnol ar benodi Cadeirydd parhaol newydd. | | Aelodau anweithredol | | Yn dilyn penderfyniad y Cadeirydd i beidio mynd am ail dymor, bydd angen i DCMS benodi Cadeirydd parhaol newydd cyn i'r unigolyn yna a gweddill yr Aelodau Anweithredol allu cadarnhau penodiad Prif Weithredwr parhaol newydd.<br><br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Ysgrifennydd i wneud gwaith paratoadol cyn hynny, er mwyn cychwyn y broses o recriwtio Prif Weithredwr unwaith bydd DCMS wedi adnabod yr unigolyn maent yn bwriadu penodi fel Cadeirydd parhaol. |
| | | | **DIWYLLIANT** | | | |
| 3. | Adolygu gwerthoedd S4C | 15/03/2024 | 30/09/2024 | Prif Weithredwr dros dro | | Cynnal sesiynau cynhwysol gyda staff i drafod ac ail-sefydlu gwerthoedd S4C er mwyn i ni fel sefydliad eu perchnogi a'u cofleidio.<br><br>Adnodd: Arweinydd allanol |
| 4. | Adolygu pileri'r strategaeth a'u symleiddio | 15/03/2024 | 30/06/2024 | Prif Weithredwr dros dro | | Cynnal gweithdai i drafod y rhain er mwyn gwella dealltwriaeth pawb o |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | beth mae'n golygu i'r sefydliad, timoedd ac unigolion.<br><br>Adnodd: Mewnol |
| 5. | Adolygu a datblygu cynllun cyfathrebu mewnol effeithiol | 01/02/2024 | 30/04/2024 | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata | | Cynnal adolygiad o'r dulliau cyfathrebu presennol, gan gynnwys ymgynghori gyda'r staff am yr hyn sy'n gweithio iddyn nhw.<br><br>Adnodd: Mewnol |
| 6. | Hyfforddiant i holl aelodau'r Tîm Rheoli a Rheolwyr | 01/03/2024 | 31/12/2024 | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | Creu, darparu ac ymgorffori cynllun hyfforddiant.<br><br>Adnodd: Hyfforddwyr allanol |
| 7. | Hyfforddiant i holl Staff | 01/03/2024 | 31/12/2024 | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | Creu, darparu ac ymgorffori cynllun hyfforddiant penodol sydd tu allan i'r gwerthusiadau 'busnes fel arfer'.<br><br>Adnodd: Hyfforddwyr allanol |
| 8. | Adolygu Datblygiad Parhaus | 01/03/2024 | 31/03/2025 | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | Adborth i gael ei gasglu'n chwarterol trwy'r Tîm Trawsnewid/Fforwm Staff/Holiadur Pwls/Cyfarfodydd chwarterol gyda Bectu. Adolygu effeithiolrwydd yr ymgysylltu a'r newid. Addasu cynlluniau yn sgil adborth ble'n berthnasol. |
| **POLISÏAU A GWEITHDREFNAU** | | | | | | |
| 9. | Adolygu polisïau Chwythu'r Chwiban, Parch yn y Gweithle, Disgyblu, a Chwyno S4C. | 01/01/2024 | 31/03/2024 | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | Adolygu'r polisïau presennol, gan ystyried arfer da ac enghreifftiau o bolisïau addas sydd gan sefydliadau eraill, gan dynnu ar arbenigedd annibynnol fel bo angen. Gwahodd mewnbwn hefyd gan Bectu. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Wrth adolygu, ystyried a oes angen unrhyw bolisïau ychwanegol ar S4C.<br><br>Hefyd ystyried ymwybyddiaeth o'r polisïau hyn, ac adnabod unrhyw resymau pam na fyddai staff yn dymuno eu defnyddio. |
| 10. | Adolygiad allanol o swyddogaeth a gweithdrefnau Adnoddau Dynol. | 15/03/2024 | 30/06/2024 | Prif Weithredwr dros dro | | Penodi ymgynghorydd allanol i adolygu prosesau a sicrhau eu bod yn cyd-fynd gydag arfer da er mwyn ail-sefydlu ymddiriedaeth y gweithlu yn yr adran, gan ystyried archwiliad diweddar TIAA i AD. |
| 11. | Datblygu polisi addas ar gyfer delio gyda chwynion am Aelodau Anweithredol. | 01/02/2024 | 31/05/2024 | Ysgrifennydd | | Edrych ar arfer da sydd gan sefydliadau perthnasol eraill, gan dynnu ar arbenigedd annibynnol fel bo angen. |
| 12. | Adolygu'r Cod Ymarfer ar gyfer aelodau'r Bwrdd Unedol. | 01/02/2024 | 31/03/2024 | Ysgrifennydd | | Gwirio bod Egwyddorion Nolan yn cael eu cynnwys. Hefyd angen ystyried pa agweddau o'r Cod Ymarfer sy'n berthnasol i aelodau'r Tîm Rheoli nad ydynt yn aelodau gweithredol o'r Bwrdd Unedol. |
| **LLYWODRAETHIANT** | | | | | | |
| 13. | Comisiynu adolygiad allanol o Effeithiolrwydd Llywodraethu. | 01/04/2024 | 30/06/2024 | Ysgrifennydd | | Adolygiad sy'n edrych ar drefniadau a systemau llywodraethu S4C – gan gynnwys y Bwrdd a'i bwyllgorau, y Tîm Rheoli a strwythurau is oddi fewn i'r sefydliad.<br><br>Bydd yn adeiladu ar adolygiadau mewnol o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau sy'n digwydd yn flynyddol, ac yn cyd-fynd ag argymhelliad y 'Cyngor Adrodd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Ariannol' y dylid cynnal adolygiad allanol bob tair blynedd.<br><br>Bydd angen cytuno ar gylch gorchwyl yr adolygiad gyda'r unigolyn / sefydliad allanol fydd yn ei gynnal, ond bydd disgwyl i'r adolygiad gynnwys ystyriaeth o'r canlynol (ymysg elfennau eraill):<br>• A yw cyfathrebu'n effeithiol rhwng gwahanol haenau oddi fewn i'r sefydliad?<br>• A yw'r penderfyniadau'n cael eu cymryd ar y lefel briodol (hyn yn arbennig o berthnasol yn sgil honiadau bod yr Aelodau Anweithredol yn ymwneud â materion gweithredol; a bod aelodau'r Tîm Rheoli yn meicroreoli). |
| 14. | Adolygu Rheolau Sefydlog y Bwrdd Unedol. | 01/05/2024 | 31/07/2024 | Ysgrifennydd | | Mae disgwyl y bydd elfennau o'r Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu yn berthnasol yma. Bydd hefyd angen edrych ar arfer da sydd gan sefydliadau perthnasol eraill. Ymgynghori gydag unigolion perthnasol – yn fewnol ac yn allanol – a chael cyngor cyfreithiol fel bo'n berthnasol.<br><br>Mae eisoes bwriad i adolygu'r Rheolau Sefydlog i sicrhau eu bod yn gyson gyda darpariaethau'r Mesur Cyfryngau pan ddaw i rym. Efallai felly y byddai'n briodol i unrhyw ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog ddod i rym mewn camau – gyda'r rhai sy'n ddibynnol ar newidiadau deddfwriaethol yn dod i rym yn hwyrach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 15. | Creu Cynllun sy'n amlinellu gweithgaredd a chyfrifoldebau meithrin a chynnal perthnasau gyda rhanddeiliaid blaenllaw. | 01/03/2024 | 30/04/2024 | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata | | |

*__Dyddiadau dangosol yn unig sydd uchod. Bydd angen ail-ystyried yr amserlen gyflawni pan fyddai'r adnoddau hwyluso allanol mewn lle.__

**From:** Lorena Troughton
**Sent:** Monday, February 19, 2024 9:37 AM
**To:** Jewell, Delyth (Aelod o'r Senedd | Member of the Senedd) <Delyth.Jewell@senedd.cymru>
**Subject:** Toriadau i gyllideb y Sector Treftadaeth / Heritage Sector budget cuts

Annwyl Delyth Jewell AS

Rydym yn ysgrifennu ar ran canghennau Prospect yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Amgueddfa Cymru i fynegi ein pryderon dybryd am y toriadau arfaethedig i'n cyllidebau.

Fel y gwyddoch efallai, mae pob corff treftadaeth ar hyn o bryd yn wynebu toriadau sylweddol i'n cyllidebau yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod ac o bosib y nesaf. Rydym yn disgwyl toriadau o rhwng 10.5% a 22% i'n Cymorth Grant. Mae hyn yn dilyn dros ddegawd o galedi, tangyllido cronig a thoriadau. Mae hwn yn gyferbyniad llwyr i benderfyniad Llywodraeth yr Alban i fuddsoddi yn y sector treftadaeth drwy ddyfarnu cynnydd o 4.2%.

Er ein bod yn cydnabod bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ariannol anodd ar hyn o bryd, cyfran gymharol fach o wariant Llywodraeth Cymru yw'r grantiau hyn, sef tua 0.02% yn unig o'u cyllideb gyffredinol. Fodd bynnag, bydd effaith y toriadau hyn yn y gyllideb yn cael effaith drychinebus ar y sector treftadaeth a diwylliant yng Nghymru.

Bydd y toriadau yn arwain at weithlu llawer llai, gan arwain at golli sgiliau ac arbenigedd yn barhaol. Bydd hyn yn effeithio ar allu pob corff i gynnal ein gwasanaethau a'n gweithgareddau, gan o bosib peryglu cenadaethau'r Siarteri Brenhinol.

Mae'r sgiliau, arbenigedd a'r wybodaeth arbenigol hyn yn hanfodol i gyflawni swyddogaethau sylfaenol o ofalu am, diogelu a darparu mynediad i gasgliadau cenedlaethol, treftadaeth Cymru a chyflwyno'r wyddoniaeth sy'n sail i gadwraeth natur yng Nghymru. Hebddynt, efallai na fydd hyn yn bosibl mwyach.

Mae'r tri chorff hefyd yn darparu gwasanaethau hanfodol eraill ac yn gwneud cyfraniadau amhrisiadwy i fywyd yng Nghymru. Rydym yn darparu mynediad am ddim i wybodaeth; trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau, rydym yn cyfrannu at wella lles ac iechyd; ac mae ein gweithgareddau gydag ysgolion, colegau a phrifysgolion yn cyfoethogi addysg yng Nghymru. Rydym hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad economaidd Cymru drwy ddenu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn.

Ymhellach, bydd y toriadau yn peryglu ein gallu i ymgymryd â llawer o weithgareddau pwysig sy'n cyfrannu at nodau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ei hun, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Cymru a'r rhaglen lywodraethu.

Heb ymyrraeth brys, gall treftadaeth a diwylliant, yn ogystal â gwytnwch amgylcheddol yng Nghymru, gael eu difrodi y tu hwnt i'w hachub. Ysgrifennwn atoch felly, i ofyn am eich cefnogaeth i annog Llywodraeth Cymru i wrthdroi eu penderfyniad i dorri cyllid ac i'n helpu i achub treftadaeth a diwylliant yng Nghymru.

Julian Carter (Cadeirydd Amgueddfa Cymru Adran Treftadaeth)

Katherine Slade (Ysgrifennydd Amgueddfa Cymru Adran Treftadaeth)

Megan Ryder (Cadeirydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru)

Meilyr Powel (Ysgrifennydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru)

Siôn England (Cadeirydd Llyfgell Genedlaethol Cymru)

Lorena Troughton (Ysgrifennydd Llyfgell Genedlaethol Cymru)

**Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru**
**First Minister of Wales**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MA/VG/0463/24

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Mawrth 2024

Annwyl Delyth

Ysgrifennwn atoch mewn perthynas ag Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-5.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am ystyried y pwnc ac am gyhoeddi'r adroddiad.

Ynghlwm mae ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn. Mae'n cynnwys ymatebion i bob un o'r 12 argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor a hefyd yr wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani ynghylch cyllidebau'r cyrff hyd braich.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir






**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism





**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Mark Drakeford AS/MS**
Prif Weinidog Cymru
First Minister of Wales

**Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

Rydym yn dymuno diolch i aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am eu hadroddiad ar 'Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25'.

At hynny, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor ar 19 Chwefror gyda chais pellach am wybodaeth am gyllidebau'r cyrff hyd braich.

Rydym wedi nodi ein hymatebion i argymhellion unigol yr adroddiad a'r ohebiaeth bellach isod.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu dadansoddiadau diwygiedig ar gyfer y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol a dylai hyn gyfateb i'r dyraniad o £2,658,600 a nodir yn ail gyflwyniad ysgrifenedig y Prif Weinidog.

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r dadansoddiad ar gyfer cyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol 2024-25 wedi'i ddarparu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cynllun Gweithredu Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol | £350,635 |
| Cynllun Gweithredu Diplomyddiaeth Gyhoeddus a Chymell Meddal | £948,400 |
| Gweithgaredd Trawsbynciol | £1,359,565 |
| CYFANSWM | £2,658,600 |

Yn y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd cyllideb yn benodol i ariannu'r gweithgaredd yn y cynllun gweithredu ar gyfer Cymry ar Wasgar. Mae ymgysylltu â'r Cymry ar wasgar bellach yn cael ei brif ffrydio yn y gweithgaredd ymgysylltu rhyngwladol ehangach, yn hytrach na chael llinell ariannu ar wahân, oherwydd newid yn y ffordd y caiff y gwaith hwn ei wneud. Mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei wneud drwy ein rhwydwaith o swyddfeydd tramor, yn ogystal â thrwy'r ddau gynllun gweithredu arall a'n gweithgareddau trawsbynciol, heb ddyraniad cyllideb penodol.

Ni allwn bob amser gynllunio a dyrannu cyllideb ar gyfer pob sefyllfa; felly, rydym yn parhau i gadw hyblygrwydd rhwng gweithgareddau o fewn y cyllidebau i ymateb i ddigwyddiadau pan fyddant yn digwydd. Mae'r dull hyblyg ac ymatebol hwn wedi golygu ein bod, yn flaenorol, wedi gallu ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd annisgwyl i godi proffil Cymru wrth iddynt ymddangos, gan ailflaenoriaethu cyllid.

**Argymhelliad 2.** Yng ngoleuni cyhoeddiad y Prif Weinidog y bydd yn gadael ei swydd cyn bo hir, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog a fydd yn gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol yn Llywodraeth nesaf Cymru, fynd i gyfarfodydd craffu ar Gyllidebau Drafft yn y dyfodol yn cnawd. Bydd hyn yn sicrhau cydraddoldeb i'r maes polisi hwn â phortffolios Gweinidogol eraill. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r wybodaeth a ddarperir yn y dyfodol gynnwys:

- Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant a gynllunnir o fewn y BEL gan gynnwys Ymgysylltu Rhyngwladol a Swyddfeydd Rhyngwladol;

- Gwybodaeth yn ymwneud ag allbynnau, canlyniadau, effeithiau a gwerth am arian ar gyfer pob maes gwariant o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol

- Dyraniadau a chymariaethau â gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf yn erbyn y flwyddyn flaenorol; ac

- Amlinelliad o heriau pellach posibl a blaenoriaethau y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod.

**Ymateb:**
Mater i'r Prif Weinidog newydd ei ystyried fydd hwn ac ni ellir ei dderbyn na'i wrthod ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam mae wedi gofyn i bartneriaid strategol gyflwyno cynlluniau ymgysylltu a chyflawni mor hwyr â chwarter cyntaf 2024.

**Ymateb: Derbyn**
Rydym yn cwrdd â'n partneriaid strategol yn aml drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod y sgyrsiau hyn, rydym yn adolygu ffrydiau gwaith presennol gan drafod rhaglenni gwaith yn y dyfodol a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol er mwyn i'n partneriaid ddatblygu eu cynlluniau cyflawni drafft.

Rhan fawr o waith ein partneriaid strategol yw cefnogi gweithgaredd rhyngwladol ehangach Llywodraeth Cymru, er enghraifft, blynyddoedd thema "Cymru yn..." a Dydd Gŵyl Dewi. Mae'n hanfodol bod swyddogion y llywodraeth yn gallu datblygu'r strategaeth a'r rhaglen fframwaith ar gyfer y gweithgareddau hyn cyn gwahodd partneriaid strategol i gyfrannu a chadarnhau eu cefnogaeth. Mae hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn gallu gwerthuso effaith gweithgareddau ein partneriaid yn y flwyddyn ariannol bresennol i benderfynu pa rai sydd wedi sicrhau'r elw gorau ar fuddsoddiad ac a yw'r rhain yn briodol i'w defnyddio/addasu ar gyfer blynyddoedd i ddod.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o’r gwaith o gasglu gwybodaeth am effaith toriadau i’r gyllideb ar dargedau Cymraeg 2050, ddarparu asesiad o effaith bosibl penderfyniadau cyllido ar nifer y dysgwyr sy'n gallu cael gafael ar ddarpariaeth ôl-16 yn Gymraeg, ac, yn benodol, prentisiaethau.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn cytuno â’r angen i asesu effaith bosibl penderfyniadau cyllido ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 ar nifer y dysgwyr sy’n gallu cael gafael ar ddarpariaeth ôl-16 Cymraeg, ac yn benodol, prentisiaethau. Rydym wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda’r Coleg Cymraeg a byddwn yn cyflwyno rhagor o wybodaeth i’r Pwyllgor erbyn diwedd mis Mawrth.

**Argymhelliad 5.** Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu asesiad o effaith gwariant ar y Gymraeg ar draws portffolios y llywodraeth, a nodi sut y mae’n bwriadu monitro effaith penderfyniadau gwariant ar draws meysydd polisi yng Nghyllidebau Drafft y dyfodol.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym eisoes wedi amlinellu gwybodaeth sylweddol am effaith gwariant fel rhan o’n Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Rydym yn adrodd ar fonitro a chyflawni canlyniadau drwy adroddiad y Rhaglen Lywodraethu. Yn ychwanegol, drwy gydol y flwyddyn rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth am fonitro a chanlyniadau meysydd polisi ar ein gwefan. Rydym yn fodlon ystyried gwelliannau o ran asesu effeithiau penderfyniadau gwario drwy ein gwaith ar Gynllun Gwella’r Gyllideb, gan gynnwys yr adolygiad o’r Asesiad Effaith Integredig Strategol sy’n cydnabod bod rhaid i newidiadau o’r fath fod yn gymesur ac y dylid eu hystyried hefyd drwy unrhyw newidiadau i Brotocol y Gyllideb.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio sut y gwnaeth gyfrif am y swyddogaethau statudol ychwanegol o fewn cylch gwaith Comisiynydd y Gymraeg, wrth benderfynu lleihau'r gyllideb yn unol â Chomisiynwyr eraill.

**Ymateb:** Derbyn

Penderfynwyd ar draws y Llywodraeth i ostwng cyllidebau pob un o’r pedwar Comisiynydd statudol yng Nghymru 5%. Ystyriwyd natur gwaith y Comisiynydd, ond roedd rhaid inni wneud penderfyniadau cyllidebol anodd ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen allweddol fel gofal iechyd a llywodraeth leol. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi trafod effaith y toriad gyda’r Comisiynydd. Mae’n bwriadu rheoli’r pwysau ar y gyllideb staffio drwy beidio â llenwi swyddi gwag, ond nid oes ganddi unrhyw gynlluniau i ddileu swyddi. Mae’r Comisiynydd wedi ein sicrhau na fydd y gostyngiad yn effeithio ar ei chyfrifoldebau

statudol craidd; bydd y gwaith o reoleiddio’r system safonau yn parhau ar yr un raddfa â’r gwaith o geisio cynyddu’r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Mae gan y Comisiynydd hefyd y pŵer i ymyrryd mewn achosion cyfreithiol ac efallai y bydd rhaid iddi amddiffyn penderfyniadau yn Nhribiwnlys y Gymraeg. Nid yw’n bosibl rhagweld y gwariant hwn oherwydd gall amrywio’n fawr o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar yr hyn sy’n codi. Er ein bod yn hyderus y gall y Comisiynydd gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio o fewn ei chyllideb ar gyfer 2024-25, nid yw’n bosibl i’r Comisiynydd amcangyfrif a fydd angen cyllid ychwanegol y tu hwnt i’w chyllideb a’i chronfeydd wrth gefn i ariannu achosion cyfreithiol. Os bydd gwariant ar achosion cyfreithiol yn mynd y tu hwnt i’w chyllideb refeniw a’i chronfeydd wrth gefn, bydd rhaid i’r Comisiynydd geisio cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn a byddwn yn ystyried hynny os bydd yn codi.

**Argymhelliad 7.** Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae wedi adolygu gallu Comisiynydd y Gymraeg i ddarparu y tu hwnt i’w swyddogaethau statudol, a pha rai ohonynt allai ddod i ben os na fyddai cyllid ar gael.

**Ymateb:** Derbyn

Yn ogystal â rheoleiddio’r system safonau, prif swyddogaeth statudol y Comisiynydd yw hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg. Mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru, cytunwyd y byddai’r Comisiynydd, yn ogystal â rheoleiddio’r system safonau, yn arwain ar gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg o fewn y trydydd sector, banciau, archfarchnadoedd a busnesau mawr.

Bydd y Comisiynydd yn cael un aelod o staff yn llai yn yr adran sy’n gweithio gyda busnesau a’r trydydd sector (o 5 aelod o staff i 4). Ni fydd ei gwaith gyda busnesau a’r trydydd sector yn dod i ben, ond yn naturiol bydd rhywfaint o ostyngiad er mwyn ystyried y gostyngiad yn nifer yr aelodau staff. Fodd bynnag, bydd y Comisiynydd yn blaenoriaethu’r cyrff y mae’n gweithio gyda nhw fel y gall ei hadnoddau gael yr effaith fwyaf posibl ar gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg. Bydd y Comisiynydd hefyd yn gwneud gostyngiad bach yng nghyllideb ei rhaglenni a fydd yn golygu toriadau i rai ymgyrchoedd.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ganfod pa ymrwymiadau gwario y gellid eu hoedi ac i'r cyllid hwnnw gael ei ailgyfeirio i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol.

**Ymateb:** Derbyn

Er ein bod yn wynebu cyfnod economaidd heriol iawn, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi ein sefydliadau diwylliannol, sydd o bwys arwyddocaol i bobl Cymru. Cafodd cyllid ychwanegol o £922,000 ei ddyrannu yn 2023/24 i Amgueddfa Cymru ar gyfer prosiectau ac eitemau a fydd yn ei helpu i fynd i’r afael â rhai o’u problemau cynnal a chadw hirdymor hysbys, uwchraddio ei hystad a chaniatáu iddi gynhyrchu incwm pellach.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud diogelu'r casgliadau cenedlaethol yn genhadaeth drawslywodraethol, a chanfod pa wariant y gellir ei ailddyrannu mewn adrannau eraill y llywodraeth i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Mae sefydliadau diwylliannol Cymru, a'r casgliadau y maent yn eu cadw ar ran pob un ohonom, yn rhan annatod o'n cymdeithas a'n llesiant. Mae pob Gweinidog wedi gorfod gwneud dewisiadau amlwg a phoenus ac rydym wedi ail-lunio cynlluniau gwario'n radical i ganolbwyntio cyllid ar y gwasanaethau cyhoeddus craidd. Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i ystyried diogelwch y casgliadau cenedlaethol o ddifrif. Dyna pam y gwnaethom ddarparu cyllideb gyfalaf uwch i Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol, sy'n cael ei chynnal yn 2024/25. Rydym hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol i alluogi Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol i uwchraddio eu hystadau. Rydym yn wynebu cyfnod economaidd heriol; fodd bynnag, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi ein sefydliadau diwylliannol a diogelu'r casgliad cenedlaethol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau trafodaethau brys gyda chyrff hyd braich i ddiwygio eu llythyrau cylch gwaith cyn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, er mwyn sicrhau bod yr hyn a ofynnir ohonynt yn realistig yng ngoleuni cyllidebau llai.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau gyda Chyrff Hyd Braich yn y sector Diwylliant a Chwaraeon ynghylch adolygu llythyrau cylch gwaith tymor y llywodraeth. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru lle bo'n briodol i adlewyrchu'r gyllideb ddrafft, i sicrhau bod ein cyrff hyd braich yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn anrhydeddu'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, cyn belled ag y bo modd.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y gostyngiad arfaethedig yng nghyllideb Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru o 22 y cant i 10 y cant. Dylai hefyd amlinellu pa gymorth ariannol y gall ei ddarparu ar gyfer rhaglen ddiswyddo wirfoddol.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Mewn perthynas â setliad cyllideb Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl adborth a gafwyd, gan gynnwys yr adborth o sesiynau craffu'r Pwyllgor, yn ofalus iawn.

Mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnwys £1.4m ychwanegol i Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru gan ddarparu cydraddoldeb i'r cyrff hyn o ran gostyngiadau ar draws cyrff hyd braich eraill o 10.5%.

Rydym wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd yn y cyllidebau ar gyfer ein cyrff hyd braich. Nid ar chwarae bach y gwnaethpwyd y dewis hwn, ond roedd ei angen er mwyn diogelu gwasanaethau craidd. Wrth i'r cyrff hyn fwrw ymlaen â'u setliadau newydd, byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw i reoli'r effeithiau hyn.

Rydym wedi cytuno ag Aelod Dynodedig Plaid Cymru bod rhaid inni ganolbwyntio ar gefnogi swyddi yn y byrdymor a'r hirdymor. Roeddem yn cytuno y dylid addasu'r refeniw a ddyrannwyd at ddibenion gwahanol er mwyn cyflawni'r strategaeth ddiwylliant yn 2024/25 i liniaru yn erbyn effaith colli swyddi yn Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sector celfyddydau ehangach. Byddwn hefyd yn darparu cyllid ychwanegol yn 2023/24 ar gyfer cynlluniau diswyddo yn y cyrff hyd braich Diwylliannol.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n monitro a sicrhau bod llywodraeth leol yn bodloni disgwyliadau Gweinidogol o ran gwasanaethau diwylliannol a hamdden.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid a ddarperir i Awdurdodau Lleol drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol heb ei neilltuo sy'n golygu bod gan Awdurdodau Lleol, fel cyrff a etholir yn uniongyrchol, gyfrifoldeb i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar ddefnyddio cyllid i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a blaenoriaethau ac anghenion eraill. Mae Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu â'u cymunedau ynghylch blaenoriaethau ar gyfer eu cyllideb. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am wariant gan awdurdodau lleol ar draws eu holl wasanaethau, gan gynnwys darpariaeth ddiwylliannol a hamdden.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd Prif Swyddogion Hamdden Cymru i drafod materion sy'n ymwneud â darparu chwaraeon a hamdden, gan gynnwys y camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r argymhelliad yn adroddiad y Senedd ar Wasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd a gyhoeddwyd yr haf diwethaf i gynnal adolygiad cyflym o gyflwr presennol y ddarpariaeth hamdden gyhoeddus yng Nghymru. Yn dilyn hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r partneriaid allweddol a nodwyd yn yr adroddiad, i benderfynu a oes bylchau yn yr asesiad hwn ac i ystyried a oes angen adolygiad ehangach i asesu'r cyfleoedd ar gyfer gwella gwasanaethau hamdden.

Mae Chwaraeon Cymru, fel corff hyd braich Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu chwaraeon, hefyd yn cael trafodaethau rheolaidd ag awdurdodau lleol am gyfleusterau chwaraeon a hamdden yng nghyd-destun eu rhaglen buddsoddi cyfalaf.

<u>Cwestiynau pellach mewn perthynas â chyrff hyd braich:</u>

Rydych wedi gofyn am yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r sefydliadau a ganlyn: Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru.

- Lefel y gostyngiadau yn y gyllideb y gofynnwyd i gyrff hyd braich yn eich cylch gwaith gynllunio ar eu cyfer tra roedd swyddogion yn paratoi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25.

- Pa wybodaeth y mae eich swyddogion wedi gofyn amdani gan gyrff hyd braich i lywio'r gostyngiadau yn y gyllideb a amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25.

- Pa sicrwydd y gallwch ei roi inni fod lefel y gostyngiadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer 2024-25 yn ostyngiad "unwaith-ac-am-byth" i'r cyrff o fewn eich cylch gwaith gweinidogol, ac nid y cam cyntaf tuag at doriad "dwy flynedd".

Wrth gynllunio ar gyfer Cyllideb 2024-25, roeddem yn wynebu sefyllfa ariannol eithriadol o anodd – yr anoddaf ers dechrau datganoli. Roeddem yn y sefyllfa hon oherwydd y lefelau chwyddiant uchaf erioed ar ôl y pandemig; gan fod llywodraethau olynol y DU wedi camreoli'r economi a chyllid cyhoeddus dros y 13 blynedd diwethaf ac oherwydd ymrwymiadau heb eu hariannu a wnaed gan Lywodraeth y DU, yn enwedig yng nghyswllt taliadau'r sector cyhoeddus.

Roedd rhaid inni gynllunio ar gyfer dim cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU, ac roedd Gweinidogion Cymru yn wynebu dewisiadau anodd ynghylch pa feysydd i flaenoriaethu cyllid a sut i ail-lunio Cyllidebau'r dyfodol. O fewn y cyllid a oedd ar gael, ceisiodd y Gweinidogion ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen cyn belled ag y bo modd, a thargedu cymorth tuag at y rhai â'r angen mwyaf.

O ganlyniad, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r cyrff hyd braich sydd â'r cyllidebau mwyaf (Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru) yn benodol er mwyn eu cefnogi i gynllunio ar gyfer amrywiaeth o senarios yn ymwneud â chyllideb, gydag amrywiaeth o opsiynau yn cynnwys cyllideb yr un fath â'r blynyddoedd diwethaf neu gyllideb sydd â gostyngiad o 22%. Bu swyddogion hefyd yn cysylltu â Chyngor Llyfrau Cymru sydd hefyd wedi cael toriad o 1.5% fel rhan o'r gostyngiad yng nghyllideb Cymru Greadigol ar gyfer 2024/25.

Bydd unrhyw ddyraniadau yn y dyfodol yn dod o dan broses y gyllideb flynyddol, ac ni allwn gadarnhau a fydd angen gwneud rhagor o newidiadau nes bydd gennym yr wybodaeth berthnasol gan Lywodraeth y DU am ein setliad ar gyfer 2025 a'r tu hwnt.

# Cyngor Tref ABERYSTWYTH Town Council

11 Stryd y Popty / Baker Street
Aberystwyth
SY23 2BJ

council@aberystwyth.gov.uk
www.aberystwyth.gov.uk
01970 624761

Maer Aberystwyth Mayor: Y Cyng. / Cllr. Kerry Ferguson

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Aberystwyth Town Council
11 Stryd Y Popty
Aberystwyth
Ceredigion
Cymru
SY23 2BJ

4 Mawrth 2024

Annwyl Gadeirydd,

Rydym yn ysgrifennu ar ran trigolion Aberystwyth, cartref Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ysgrifennwn yn gofyn ichi ddefnyddio pob modd posibl i gynyddu'r gyllideb celfyddydau a diwylliant sy'n gysylltiedig â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru.

Mae gan dref Aberystwyth boblogaeth o 14,648 (Cyfrifiad 2021), mae'n gyfoethog o ran hanes a diwylliant ac mae'n gartref i un o Brifysgolion mwyaf mawreddog Cymru. Mae'r iaith Gymraeg yn elfen hollbwysig o fywyd bob dydd ac yn cael ei dathlu trwy gerddi, caneuon ac arddangosiadau o falchder ledled y dref. Fel Cyngor Tref, rydym yn eiriol dros ein cymuned ac yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu diogelu. Rydym yn gwneud ein gorau glas i ddenu buddsoddiad, cefnogi busnesau lleol a chynnal ein parciau, tiroedd ac ardaloedd cymunedol i bawb eu mwynhau. Mae hyn yn cynnwys ein Llyfrgell Genedlaethol, sy'n sefyll yn falch dros ein tref wych.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa gyllidol annymunol, diolch i weithredoedd 14 mlynedd o lymder yn San Steffan; fodd bynnag, mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru yn annerbyniol.

Mae undebau llafur y PCS a Prospect, sy'n cynrychioli aelodau yn y ddau leoliad, yn rhybuddio am golli swyddi oherwydd y setliad cyllideb hwn. Byddwn yn cyfeirio at Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn benodol fel y mae'n ymwneud ag Aberystwyth. Mae'r posibilrwydd o golli swyddi a chapasiti yn peri pryder mawr i ni. Mae hyn yn effeithio ar y gweithwyr unigol a'r gymuned ehangach, yr economi leol, dyfodol diwylliant Cymru, y sefydliadau eu hunain, a chenedlaethau'r dyfodol.

Bydd colli swyddi yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn effeithio ar ein cymuned mewn sawl ffordd. Bydd colli cyflogau yn effeithio ar ein heconomi a busnesau lleol; bydd colli sgiliau a gallu yn atal twristiaeth lenyddol ac ymchwil, ac o bosibl niferoedd myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth; bydd colli staff a chapasiti yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg; bydd lleihau capasiti yn cael effaith negyddol uniongyrchol ar ein treftadaeth a'n diwylliant.

Bydd colledion capasiti yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn effeithio ar y sefydliadau dan sylw. Bydd sgiliau ac arbenigedd allweddol yn cael eu colli, a all gymryd degawdau i'w hailadeiladu. Bydd toriadau ar weithrediadau presennol yn effeithio ar gapasiti prosiectau a chynigion y mae Cyngor Tref Aberystwyth wedi bod yn falch o'u cefnogi, megis y gwaith parhaus o godi ymwybyddiaeth a digideiddio Deiseb Heddwch Menywod Cymru, a drafodwyd yn ddiweddar yn y Senedd.

Bydd colli swyddi a chyllid yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn cael effeithiau eilaidd a thrydyddol ar y genedl gyfan:

Fel Cyngor, rydym yn rhannu pryder nad yw'r colledion swyddi hyn a cholli sgiliau a chapasiti ym mhrif sefydliadau diwylliannol a hanesyddol Cymru yn cyd-fynd â rhai o nodau datganedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sef "Cymru o Ffynnu. Diwylliant a'r Gymraeg yn Ffynnu", "Cymru o Gymunedau Cydlynol", "Cymru Iewyrchus", a "Cymru Gydnerth".

Gall rhaglenni Allgymorth ac Addysg, sy'n hanfodol i ddealltwriaeth cenedlaethau'r dyfodol o Gymru, fod dan fygythiad hefyd.

Bydd colli capasiti yn golygu llai o ymwelwyr ag Aberystwyth a Chymru, ond mae'n debygol hefyd llai o'r ymchwil a'r prosiectau arloesol y mae Prifysgol Aberystwyth a Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi meithrin enw da yn eu cylch.

Mae Cyngor Tref Aberystwyth ar hyn o bryd yn arwain cais i wneud Aberystwyth yn "Ddinas Lên", a fyddai, o'i chaniatáu, y gyntaf yng Nghymru. Bydd toriadau i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn cael effaith negyddol ar y cais hwn.

Mae Cyngor Tref Aberystwyth wedi bod yn falch o gefnogi'r ceisiadau cynllunio a'r buddsoddiadau y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi'u gwneud i wneud eu hunain yn Net Sero. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi dangos ei hun fel arweinydd yn y maes hwn, ac nid yw lleihau cyllid yn gymhelliant i dorri tir pellach ar yr angen cynyddol bwysig i sicrhau bod ein sefydliadau yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Mae Cyngor Tref Aberystwyth yn gofyn, ar ran ein trigolion a'n sefydliadau, ein heconomi leol a'n diwylliant Cymreig, ichi adolygu'r gostyngiadau cyllid arfaethedig, a bod Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r sefydliadau a'r undebau llafur dan sylw i sicrhau bod Cymru yn cael ei wneud yn ddiwylliannol dlotach gan weithredoedd ein Llywodraethau yng Nghaerdydd a San Steffan.

Mewn cyfnod pan fo cymaint o wasanaethau dan fygythiad, mae gostyngiad yn y cyllid ar gyfer ein diwylliant a'n treftadaeth yn mynd yn groes i bob elfen o'r hyn y credwn yw nod y Rhaglen Lywodraethu yng Nghymru a'r Cytundeb Cydweithredu i ddatblygu strategaeth ddiwylliant. Mae'r ddwy ddogfen yn ymwneud â gwella asedau diwylliannol a sicrhau buddsoddiad yn y dyfodol. Dim ond ychydig o ardaloedd sydd ar ôl am ddim i'r cyhoedd eu defnyddio; gall tynnu cyllid i ffwrdd ar gyfer sefydliad sy'n rhoi cymaint i gyfoethogi bywydau pobl Cymru a helpu i roi llais i'n diwylliant, ein hanes, a'n hiaith hefyd newid y trefniant hwnnw. Gall y penderfyniad hwn eto osod rhwystr i'n cymunedau mwyaf difreintiedig fwynhau cyfoeth yr hyn sydd ar gael yn ein Llyfrgell Genedlaethol. Ni ddylai ein diwylliant fod y tu ôl i wal dâl; ar hyn o bryd, mae ein Hamgueddfa Genedlaethol yn falch o sicrhau nad yw hynny'n wir.

Rydym yn croesawu'r cyfle i'r Pwyllgor annerch y Cyngor Tref i glywed ein pryderon dros drigolion a dinasyddion Aberystwyth, ac i rannu'r effeithiau ehangach y bydd toriadau mor ddwfn â hyn yn eu cael ar ein diwylliant a'n tref.

Yn gywir,
Cyngor Tref Aberystwyth

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu,
y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

05 Mawrth 2024

Annwyl Delyth

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 16 Ionawr, a oedd yn ceisio rhagor o wybodaeth yn sgil y sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft, a fynychais ar 11 Ionawr.

Rydych wedi gofyn am ragor o wybodaeth mewn dau faes, fel a ganlyn:

- *effaith toriadau i gyllidebau adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru ar weithredu Cymraeg 2050.*
- *dealltwriaeth fanylach o'r ystod o weithgareddau a'r gwariant ar draws adrannau'r llywodraeth sy'n cyfrannu at amcanion Cymraeg 2050*

Cyllidebau sy'n cefnogi *Cymraeg 2050* ar draws Llywodraeth Cymru

Yn ystod y sesiwn graffu, trafodom fy nghynlluniau gwariant ar gyfer y Gymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Yn ôl fy arfer, cymerais ofal i bwysleisio er fy mod yn gyfrifol am weithredu ein Strategaeth Iaith Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, y nod yw prif-ffrydio'r Strategaeth i bob un o bortffolios y Llywodraeth. O'r herwydd, nid yw'n bosibl adnabod cyfanswm y gwariant ar y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru, am ei fod yn greiddiol i gymaint o'r hyn a wnawn o ddydd i ddydd. Mae gwariant sy'n berthnasol i *Cymraeg 2050* wedi'i wreiddio yn y ffordd y mae llawer o bortffolios gweinidogol yn gweithredu, o'r economi i iechyd, o'r maes rhyngwladol i dai, o amaeth i'r blynyddoedd cynnar.

Serch hynny, mae yna brosiectau penodol mewn meysydd portffolio eraill sy'n cefnogi *Cymraeg 2050* yn uniongyrchol, ac rwy'n cynnwys rhai enghreifftiau yn Atodiad A. Rwy'n falch o weld bod y rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn wedi eu cynnal er gwaethaf graddfa'r toriadau a wnaed ar draws Llywodraeth Cymru yn sgil yr hinsawdd ariannol hynod o heriol. Wedi dweud hynny, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n rheolaidd. Bydd fy swyddogion felly'n cadw mewn cysylltiad cyson â chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod effaith unrhyw doriadau cyllidebol ar weithredu *Cymraeg 2050* yn cael eu cadw i'r lefel isaf posibl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwch yn ymwybodol, er hynny, o’r penderfyniadau anodd y bu’n rhaid i’m cydweithwraig Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth, eu gwneud yn ddiweddar mewn perthynas â’r gyllideb. Er lleihau cyllideb y sector diwylliant, mae’r gwaith yn parhau i ddatblygu strategaeth ddiwylliant a fydd yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol a chynhwysfawr ar gyfer y sector hwnnw yng Nghymru, yn unol â’r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Bydd y strategaeth yn gosod cyfeiriad strategol i’r sector hyd at 2030.

Mae cyrff hyd-braich ym maes diwylliant, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn gwneud cyfraniad pwysig i amcanion *Cymraeg 2050*. Rydym yn ymwybodol o’r pryderon ynghylch lleihau’r gyllideb a’r effeithiau posibl ar *Cymraeg 2050*. Byddwn yn parhau i drafod hynny’n rheolaidd gyda’r Dirprwy Weinidog i wneud yn siŵr ein bod yn ymwybodol o’r effaith ar y Gymraeg, mewn ymgais i leihau risgiau wrth iddyn nhw ddod i’r amlwg.

Gofal Plant


Rwy’n ymwybodol y bydd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn bo hir yn cadarnhau’r cyllid a fydd ar gael i gefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg, sy’n cynnwys rhaglen Cam wrth Gam.

Trafodaethau gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

I gael diweddariad ar y mater hwn, dylech droi at ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft 2024-25 (argymhelliad 4 ) lle rydym wedi cytuno i roi diweddariad i’r Pwyllgor erbyn diwedd mis Mawrth.

Hoffwn sicrhau’r Pwyllgor y byddwn yn parhau i gyfathrebu’n rheolaidd ar draws Llywodraeth Cymru a chyda phartneriaid allanol i drafod gweithredu *Cymraeg 2050*. Gwnawn hyn er mwyn cefnogi’n gilydd i ganfod ffyrdd creadigol ac arloesol o wneud y defnydd gorau posib o’r cyllidebau sydd ar gael i ni – hyn oll gyda’r nod o barhau ar ein taith i ddyblu’r nifer ohonom sy’n defnyddio’r Gymraeg bob dydd, a chyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

## Atodiad A: Enghreifftiau o brosiectau yn adrannau eraill y Llywodraeth sy’n cefnogi *Cymraeg 2050* yn uniongyrchol

| MEG | BEL | Gweithgarwch sy’n cefnogi *Cymraeg 2050* | Cyllideb Terfynol Gwreiddiol 2024-25 (Chwef 2023) £ | Newidiadau 2024-25 £ | Cyllideb Ddrafft Ddiwygiedig 2024-25 (Rhag 2023) £ | Gweithgarwch *Cymraeg 2050* a gefnogir drwy’r BEL ac effaith toriadau i’r gyllideb ar ymyraethau a datblygiadau polisi o ran y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Newid Hinsawdd | Polisi Tai | Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd Dwyfor | £133,000 | - | £133,000 | Grant i Gyngor Gwynedd i gefnogi gwaith o dan Erthygl 4 (cyfarwyddyd cynllunio). Os bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu cyfarwyddyd, yn dilyn newidiadau a wnaed i’r fframwaith cynllunio (Gorchymyn Dosbarth Defnydd), bydd hyn yn galluogi’r Cyngor i reoli’r niferoedd o ail gartrefi a llety gosodiadau tymor byr yn y dyfodol. |
| Newid Hinsawdd | Polisi Tai | Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd Dwyfor | £75,000 | - | £75,000 | Ymchwil a gwerthusiad annibynnol o’r Peilot, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd ystod o fesurau mewn perthynas ag ail gartrefi a fforddiadwyedd. |
| Newid Hinsawdd | Polisi Tai | Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd Dwyfor | £6,000 | - | £6,000 | Data incwm (cyflogau) i gefnogi gwaith gwerthuso (bydd hyn yn edrych ar sut mae prisiau’n newid, ac yn galluogi asesiad o fforddiadwyedd cymharol). |
| Newid Hinsawdd | Polisi Tai | Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd Dwyfor | £322,000 | - | £322,000 | 5 swydd – staff y cynllun peilot, yn gweithio’n agos gyda’r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. |
| Iechyd a Gwasan-aethau Cymdeith-asol | Cymru Iachach | Cynllun Mwy na geiriau 2022-27 | £291,000 | - | £291,000 | Nod *Mwy na geiriau* yw cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan arwain at well gofal a chanlyniadau i siaradwyr Cymraeg. Gan ystyried y niferoedd staff sy’n darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (tua 200,000), mae yna botensial enfawr i’r maes iechyd a gofal cymdeithasol gyfrannau at dargedau a gweledigaeth *Cymraeg 2050*. Caiff £40k o’r gyllideb hon ei throsglwyddo’n fewnol i Is-adran Cymraeg 2050 ar gyfer gweithgarwch sy’n gysylltiedig ag Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog.<br><br>Ar wahân i’r gyllideb benodol hon i ariannu mentrau canolog a phrosiectau ar lefel genedlaethol i gefnogi *Mwy na Geiriau*, mae’r GIG ac awdurdodau lleol hefyd yn ariannu gwasanaethau Cymraeg fel rhan o’u darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. |
| Economi | Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | Rhaglen ARFOR – Cefnogi’r Gymraeg drwy weithgarwch economaidd | £7,000,000 | - | £7,000,000 | Rhedeg Rhaglen ARFOR 2 sy’n cefnogi gweithgarwch economaidd yn ogystal â rhoi budd i’r Gymraeg. Mae ARFOR yn cael ei redeg o fewn Awdurdodau Lleol Gwynedd, Ceredigion, Sir Gâr ac Ynys Môn. |

| MEG | BEL | Gweithgarwch sy'n cefnogi *Cymraeg 2050* | Cyllideb Terfynol Gwreiddiol 2024-25 (Chwef 2023) £ | Newidiadau 2024-25 £ | Cyllideb Ddrafft Ddiwygiedig 2024-25 (Rhag 2023) £ | Gweithgarwch *Cymraeg 2050* a gefnogir drwy'r BEL ac effaith toriadau i'r gyllideb ar ymyraethau a datblygiadau polisi o ran y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Economi | Cymru Greadigol (3762) | Cyllideb y Cytundeb Cydweithio ar gyfer darlledu, newyddiaduriaeth a chynnwys Cymraeg | £1,800,000 (refeniw) | - | £1,800,000 (refeniw) | Mae'r cyllid sydd wedi'i neilltuo i gefnogi'r ymrwymiadau darlledu a'r cyfryngau yn y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru wedi cael ei ddefnyddio i gyflawni prosiectau i helpu i gynyddu cynnwys Cymraeg, gan gynnwys y Gronfa Cynnwys Cynulleidfaoedd Ifanc, sydd â'r nod o gynyddu darpariaeth cynnwys dwyieithog ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc a Sinema Cymru, sef partneriaeth gyda Ffilm Cymru i gefnogi datblygiad prosiectau ffilmiau Cymraeg. Dyma fydd yr achos yn 2024-25 hefyd, gyda ffocws mawr ar sicrhau cyfryngau Cymraeg digonol wrth gyflawni ymrwymiadau'r Cytundeb Cydweithio. Nid oes unrhyw doriadau cyllidebol arfaethedig o dan y pennawd cyllideb hwn. |
| Economi | Chwaraeon Cymru | Cymorth grant gan Chwaraeon Cymru i Urdd Gobaith Cymru | £386,715 | -£13,482 | £373,233 | Mae'n anochel y bydd newidiadau i'r gyllideb yn effeithio ar allu Chwaraeon Cymru a'i rwydwaith o bartneriaid i gyflawni'r ystod o waith y gall chwaraeon gyfrannu tuag ato. Mae'r sector chwaraeon wedi ymrwymo i gynnig cynhwysol ac mae hyn yn cynnwys galluogi mynediad at gyfleoedd ym maes chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â datblygu partneriaethau sy'n tyfu'r iaith fel rhan naturiol o gymryd rhan mewn chwaraeon.<br><br>Mae Chwaraeon Cymru'n buddsoddi'n uniongyrchol yn yr Urdd sy'n gwneud llawer o waith i ddatblygu cyfleoedd chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ogystal â'r holl bartneriaid eraill y mae Chwaraeon Cymru'n buddsoddi ynddyn nhw, sydd hefyd wedi ymrwymo i ddarparu cynigion Cymraeg pan fo modd a lle mae galw.<br><br>Mae'r Urdd wedi cynnal rhaglenni llwyddiannus ers nifer o flynyddoedd a thrwy ddatblygu'r rhaglenni, bydd anghenion plant a phobl ifanc heddiw yn cael eu diwallu. Bydd y meysydd canlynol yn cael ffocws dros y flwyddyn sydd i ddod:<br><br>• Darpariaeth ar ôl ysgol a chymunedol<br>• Staffio, Prentisiaethau a gwirfoddolwyr<br>• Sefydlu Bwrdd Chwaraeon a Phrentisiaethau Cenedlaethol yr Urdd yn llawn<br>• Cyfleoedd rhyngwladol i staff a gwirfoddolwyr<br>• Mae data'n dangos yn glir bod angen cefnogaeth ar blant cyn oed ysgol gyda llythrennedd corfforol fel rhan o'u datblygiad, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig<br>• Ffocws ar feysydd cyflawni Amrywiol a Difreintiedig<br>• Datblygu a chynyddu ein gweithlu cymuned gynhwysol drwy ein llwybrau gwirfoddoli a phrentisiaethau. |

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

6 Mawrth 2024

Annwyl Delyth,

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 9 Chwefror am brosiect Cymru yn India 2024. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y diddordeb a ddangoswyd yn y rhaglen sydd ar y gweill, a fydd yn dathlu ac yn cryfhau perthynas Cymru â phartner masnach a diwylliannol pwysig.

Rwyf wedi ymateb i bob un o'ch cwestiynau isod.

**C1. Cynlluniau ar gyfer Cymru yn India**

Mae hyblygrwydd wedi bod yn bwysig iawn wrth inni gynllunio'r rhaglen ar gyfer blwyddyn Cymru yn India, fel gyda phob un o'n blynyddoedd "Cymru yn...". Mae trefniadau terfynol yn cael eu gwneud ar gyfer digwyddiadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, neu ddigwyddiadau sydd dan arweiniad ein partneriaid strategol, ond rhoddir enghreifftiau o ddigwyddiadau allweddol sy'n cael eu cynnal isod. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio o amgylch ein tair swyddfa ym Mumbai, Delhi Newydd a Bengaluru; mae dinasoedd a rhanbarthau eraill yn India hefyd yn cael sylw, a chynhelir rhai digwyddiadau yng Nghymru.

Lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau y flwyddyn yn swyddogol ym Mumbai a Llundain ar 29 Chwefror. Roeddwn i yn Uchel Gomisiwn India mewn digwyddiad i nodi Dydd Gŵyl Dewi, tra bod y Gweinidog Iechyd yn ymgymryd â rhaglen ym Mumbai a Kerala.

Dim ond rhai o'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn yw'r canlynol:

- **Chwefror** – Lansio Cymru yn India (Llundain a Mumbai)
- **Chwefror – Mawrth** – Digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi (Llundain, Delhi Newydd, Mumbai a Bengaluru)
- **Mawrth** – Cyfarfod Bord Gron ar fuddsoddi mewn technoleg feddygol (Mumbai)
- **Mai** – Taith fasnach aml-sector (Mumbai a Bengaluru)
- **Mai / Mehefin** – Ffocws ar lenyddiaeth Indiaidd (Gŵyl y Gelli)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- **Mehefin** – Mis Pride (Mumbai)
- **Gorffennaf** – Digwyddiad Cymry ar wasgar (Mumbai)
- **Awst** – Digwyddiadau buddsoddi a masnach conclaf Indo-Gymreig (ledled India)
- **Awst** – Cerddoriaeth Indo-Gymreig (Eisteddfod Genedlaethol a Gŵyl y Dyn Gwyrdd)
- **Medi** – Ymweliad GIG (Kerala)

**C2. Gwersi o flynyddoedd blaenorol 'Cymru yn...'**

Mae gwersi wedi eu dysgu o flynyddoedd blaenorol "Cymru yn ..." a gynhaliwyd yn yr Almaen, Canada a Ffrainc, sydd wedi bod o gymorth wrth gynllunio ar gyfer Cymru yn India 2024. Mae'r rhan fwyaf o'r gwersi a ddysgwyd yn ymwneud ag ymgysylltu'n gynnar â phartneriaid mewnol ac allanol, yn ogystal ag ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am weithgarwch, trafod syniadau a datrys unrhyw faterion. Rydym yn gwerthuso blwyddyn Cymru yn Ffrainc ar hyn o bryd – y flwyddyn gyntaf o'i bath na chafodd y pandemig effaith arni – ac yn anelu at ddefnyddio'r gwersi a ddysgir o hyn i lywio gweithgarwch yn y dyfodol.

Mae gennym swyddog penodol yng Nghymru, wedi'i recriwtio ar sail tymor penodol, i gefnogi'r tîm yn y farchnad dramor a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng y tîm tramor a'r timau yng Nghymru ar draws Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y model hwn yn effeithiol ar gyfer Cymru yng Nghanada 2022 a Chymru yn Ffrainc 2023. Mae'r gwersi a ddysgwyd o Ganada a Ffrainc wedi dangos bod recriwtio cynnar yn bwysig, gyda'r angen i gael adnoddau ar waith yn ystod y cam cynllunio, cyn y lansiad.

**C3. Alinio Cymru yn India â'r gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer Masnach a Buddsoddi**

Un o brif amcanion Cymru yn India 2024 yw sicrhau cyfleoedd masnach, buddsoddi a chyflogaeth o ansawdd uchel i Gymru. Felly, er bod y gyllideb ar gyfer cymorth allforio, gan gynnwys teithiau masnach, wedi'i lleihau ar gyfer 2024-25, rydym wedi blaenoriaethu cyflwyno taith fasnach o Gymru i India, fel rhan o raglen gyffredinol Cymru yn India. Bydd y daith hon yn adeiladu ar deithiau masnach blaenorol i India yn 2016 a thaith rithwir yn 2021 a bydd yn cefnogi cynrychiolwyr o fusnesau o Gymru i archwilio cyfleoedd masnachu yn y farchnad hon a nodir fel marchnad darged flaenoriaeth yn ein Cynllun Gweithredu Allforio. Mae'r data blwyddyn galendr llawn diweddaraf (ar gyfer 2022) yn dangos cynnydd yng ngwerth allforion Cymru i India ar £264.9m (i fyny o £112.5m yn 2021), gydag India yn y 15fed safle o ran y cyrchfannau uchaf ar gyfer allforion nwyddau o Gymru. Bydd cyfarfodydd bord gron buddsoddi hefyd yn rhan allweddol o weithgareddau Cymru yn India a byddant yn cael eu cynnal mewn rhanbarthau blaenoriaeth drwy gydol y flwyddyn.

**C4. Dyraniad Cyllideb Ddrafft**

Y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer Cymru yn India 2024 yw £224,500 (£74,500 o 2023-24 a £150,000 o 2024-25). Fel y nodwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig flaenorol i'r Pwyllgor, daw cyllid 2024-25 o'r £2.6 miliwn a ddyrannwyd i linell Ymgysylltu Rhyngwladol y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol (BEL 3720). Mae £22,330 ychwanegol o'r BEL Masnach a Buddsoddi wedi'i ddyrannu i ariannu'r daith fasnach i India. Nid yw'r gyllideb ar gyfer Cymru yn India wedi cael ei lleihau gan fod cyllid ar gyfer y rhaglen o weithgareddau wedi ei gynnwys yn y dyraniadau cyllideb gwreiddiol.

**C5. Effaith y dull diwygiedig a gyflwynwyd gan y Gweinidogion i Bwyllgor yr Economi Masnach a Materion Gwledig (ETRA) ar gynllunio ar gyfer Cymru yn India**

Nid yw ein dull o ymdrin â masnach a buddsoddi, fel yr eglurwyd i Bwyllgor ETRA, wedi cael effaith ar weithgarwch Cymru yn India. Fel rhan o hyn, mae rhaglen digwyddiadau masnach dramor Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi cyn y flwyddyn ariannol ganlynol er mwyn gallu marchnata'r rhaglen i gwmnïau, sicrhau'r bod cymaint o bobl â phosibl yn cymryd rhan, sicrhau y gall cwmnïau baratoi'n effeithiol a sicrhau ein bod yn gallu sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau am y pris mwyaf cost-effeithiol. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei harwain gan alw, sy'n canolbwyntio ar farchnadoedd targed blaenoriaeth, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Gweithredu Allforio. Er bod y gyllideb ar gyfer gweithgarwch masnach a buddsoddi yn cael ei lleihau, roedd Cymru yn India 2024 yn gyfle i drefnu taith fasnach i'r farchnad bwysig hon.

Mae'n bosibl bod Cytundeb Masnach Rydd hefyd rhwng y DU ac India yn yr arfaeth. Pe bai'r cytundeb masnach yn cael ei lofnodi, byddwn yn gallu cefnogi busnesau Cymru yn y farchnad a'u helpu i ddeall beth mae'r Cytundeb Masnach Rydd newydd yn ei olygu iddyn nhw.

**C6. Cydbwyso gweithgareddau Cymru yn India â gweithgareddau rhyngwladol eraill, gan gynnwys cysylltiadau â blaenoriaeth.**

Bydd blwyddyn Cymru yn India yn flaenoriaeth o ran ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol, ond ni fydd hyn yn effeithio ar weithgarwch arall. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cefnogi nifer fawr o ymweliadau diplomyddol a rhyngwladol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cynnal ein ffocws ar bartneriaethau'n llofnodi Datganiad a Rennir newydd gyda Baden-Württemberg, yn ogystal â chytundebau â Fflandrys a Silesia. Cefnogir y tîm yn India gan y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol ehangach yng Nghymru. Yn ogystal, fel y crybwyllwyd yng Nghwestiwn 2, mae swyddog penodol yng Nghymru sy'n dod ag adnodd ychwanegol i dîm Cymru yn India.

**C7. Ymweliad gweinidogol ag India**

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 1, ymwelodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â Mumbai i lansio Cymru yn India 2024 yn swyddogol. Roedd yr ymweliad hwn hefyd yn rhan o raglen i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd ei hymweliad yn cynnwys cyfarfodydd a digwyddiadau oedd yn canolbwyntio ar fasnach a buddsoddi – gan gynnwys cyfarfod bord gron ar fuddsoddi gan y sector technoleg feddygol, amcanion GIG Cymru, yr agenda cymell tawel a chyfrifoldeb byd-eang, a datblygu ein gwaith yn India ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach. Teithiodd y Gweinidog hefyd i Kerala fel rhan o raglen sy'n canolbwyntio ar recriwtio'r GIG. Bydd Datganiad Ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi fel rhan o fusnes arferol.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Eitem 3.6

# YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL GWEINIDOGOL

## CHWEFROR 2024

| YMWELIADAU I GYMRU | |
|---|---|
| **26 Ch** | **Ymweliad â Chymru gan Uchel Gomisiynydd Bangladesh i'r DU**<br>Cyfarfu'r Prif Weinidog â'r Uchel Gomisiynydd yn ystod ei ymweliad deuddydd â Chymru. Yn y cyfarfod buont yn trafod hyrwyddo'r Gymraeg, addysg yng Nghymru a chymuned Bangladesh yng Nghymru. |

| YMWELIADAU O GYMRU | |
|---|---|
| **28 Ch** | **Prif Weinidog yn ymweld â Brwsel, Gwlad Belg ***<br>Teithiodd y Prif Weinidog i Frwsel i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a dangos ymrwymiad Cymru fel cenedl Ewropeaidd gyda phartneriaid Ewropeaidd. Fe wnaeth y Prif Weinidog siarad mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Fforwm Ewrop, cyfarfod â Llywydd y Gweinidog Fflandrys, cynnal trafodaeth bwrdd crwn gan WindEurope a mynychu digwyddiad a gynhaliwyd gan Brifysgolion Cymru. Gyda'r nos, cynhaliodd y Prif Weinidog dderbyniad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ym Mhreswylfa’r Llysgenhadon ym Mrwsel. |
| **28 Ch** | **Ymweliad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ag India***<br>Teithiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i India i lansio blwyddyn Cymru yn India 2024 yn nerbyniad Dydd Gŵyl Dewi ym Mumbai a mynychodd gyfarfodydd a digwyddiadau ar draws sawl sector, gan gynnwys gofal iechyd, cyfrifoldeb byd-eang a phŵer meddal. Ymwelodd y Gweinidog hefyd â thalaith Kerala i lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ochr yn ochr â Phrif Weinidog Kerala i gryfhau'r berthynas rhwng Cymru a Llywodraeth Kerala i gefnogi recriwtio i Gymru. |
| **28 Ch** | **Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip yn ymweld ag Iwerddon***<br>Teithiodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip i Ddulyn i gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Ddatganiad ar y Cyd Iwerddon-Cymru ac i nodi Dydd Gŵyl Dewi. Roedd yr ymweliad deuddydd yn cynnwys cyfarfodydd â Gweinidogion ac Adrannau’r Llywodraeth, presenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau diwylliannol a busnes a chynnal derbyniad Dydd Gŵyl Dewi. |
| **29 Ch** | **Y Prif Weinidog yn ymweld ag Uchel Gomisiwn India, Llundain**<br>Cyfarfu’r Prif Weinidog ag Uchel Gomisiynydd India yn Llundain yn ystod derbyniad Dydd Gŵyl Dewi’r Comisiwn. |
| **29 Ch** | **Y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd yn ymweld â Llysgenhadaeth yr Unol Daleithiau, Llundain**<br>Cyfarfu’r Gweinidog â Llysgennad yr Unol Daleithiau yn Llundain yn nerbyniad Dydd Gŵyl Dewi’r Llysgenhadaeth. |

**Cyhoeddir datganiad ysgrifenedig gyda rhagor o wybodaeth am yr ymweliadau maes o law.*

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB-PO-0085-24

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

12 Mawrth 2024

Annwyl Delyth,

**Craffu ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr 2023 yn gofyn am wybodaeth yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

Nodir yr ymatebion i'r cwestiynau a godwyd gennych yn eich llythyr isod.

*Pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi penderfyniad am sefydlu Awdurdod Darlledu Cysgodol? Os na fydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Awdurdod Darlledu Cysgodol, a fydd yn ailddyrannu dyraniadau penodol y gyllideb a fwriedir at y diben hwnnw yn uniongyrchol i bolisïau eraill i wella'r ddarpariaeth o gyfryngau i Gymru?*

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad y panel arbenigol ar ddarlledu i sefydlu Awdurdod Darlledu Cysgodol heddiw mewn Datganiad Ysgrifenedig.

Bydd y cyllidebau a neilltuwyd ar gyfer darlledu a'r cyfryngau drwy'r Cytundeb Cydweithio yn parhau i gael eu defnyddio i gefnogi'r ymrwymiadau hynny ac i weithredu yn unol ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y panel arbenigol ar ddarlledu.

*Beth yw barn Llywodraeth Cymru am ddigonolrwydd y ddarpariaeth cyfryngau darlledu i Gymru?*

Mae Cytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru gyda Phlaid Cymru yn nodi ein barn bod y fframwaith darlledu a chyfathrebu presennol yn annigonol, yn rhwystro bywyd democrataidd ein gwlad ac nad yw'n diwallu anghenion y Gymraeg, nac uchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg. Mae'n tynnu sylw at yr angen i wella newyddiaduraeth Cymru ac i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth. Cyfryngau amlddarparwr yw asgwrn cefn unrhyw gymdeithas ddemocrataidd, weithredol ac mae diogelu'r gymdeithas honno yn hollbwysig i sicrhau darpariaeth newyddion ddeallus a chytbwys. Rydym yn dibynnu'n fawr ar newyddion a ddarlledir yng Nghymru, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen i ni wneud mwy i sicrhau dewis o newyddion a chywirdeb yn y ddarpariaeth ar lefel y DU . Er enghraifft, mae adroddiad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NS

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Prifysgol Caerdydd 2022 '*Adrodd ar y gwledydd a materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith: Dadansoddiad o ddarpariaeth teledu ac ar-lein*, yn nodi, er bod darparwyr newyddion y DU wedi gwella'r sylw maent yn ei roi i faterion yn ymwneud â'r gwledydd datganoledig, roedd hyn yn bennaf oherwydd rheolau adrodd oedd yn ymwneud â'r pandemig. Fel y gwelwyd yn ystod yr argyfwng, codwyd pryderon o ran y diffyg gwahaniaeth rhwng y rheolau a osodwyd ar Lywodraeth y DU a'r Llywodraethau yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast.  Amlygodd adroddiad y panel arbenigol ar ddarlledu fod cynulleidfaoedd di-Gymraeg o Gymru yn parhau i gael eu tan-wasanaethu gan gynnwys penodol i Gymru.

Er hyn, mae datblygiadau cadarnhaol i'w gweld yn y sector darlledu yng Nghymru. Mae ffocws Cymru Greadigol ar gynnal twf a sicrhau bod Cymru yn lleoliad poblogaidd ar gyfer cynhyrchu ar gyfer ffilm a theledu wedi denu cynyrchiadau mawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys *Havoc* Netflix a chynhyrchiad Lucasfilm o *Willow*. Mae cysylltiad cadarnhaol gyda'n darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys drwy ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, wedi gweld BBC Cymru Wales yn galw 2023 yn flwyddyn y ddrama Gymraeg. Mae hyn wedi cefnogi cynnwys sy'n adlewyrchu ein bywyd a'n diwylliant Cymreig i gynulleidfaoedd yng Nghymru a'r rhai yng ngwledydd eraill y DU, gan arddangos ein doniau a'n tirweddau. Mae trefniadau partneriaeth gydag S4C a Ffilm Cymru yn cefnogi mwy o fuddsoddiad i sector ffilm Cymru.

Ein nod yw adeiladu ar ddatblygiadau cadarnhaol, tynnu sylw at broblemau a bylchau parhaus yn y ddarpariaeth, a thargedu gweithgarwch yn y dyfodol yn unol â hynny, gan weithio gyda'r Corff Cynghori newydd ar Ddarlledu a Chyfathrebu a'r Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru.

*Pa newidiadau polisi allweddol, os o gwbl, yr hoffai Llywodraeth Cymru eu gweld yn cael eu gwneud naill ai ar lefel Cymru neu'r DU i wella'r ddarpariaeth cyfryngau darlledu i Gymru?*

Hoffai Llywodraeth Cymru weld newidiadau a fyddai'n sicrhau llais digonol i Gymru mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â darlledu sy'n effeithio ar Gymru, a strwythurau gwell yn cael eu rhoi ar waith i gynyddu tryloywder a gwella atebolrwydd i Gymru. Er enghraifft, rôl gydsynio gryfach, fwy ffurfiol ym mhob penodiad darlledu sy'n effeithio ar Gymru, rôl ffurfiol mewn adolygiadau a'r broses gwneud penderfyniadau ar gyllid i ddarlledwyr sy'n effeithio ar Gymru, megis Adolygiad Trwyddedau Teledu, a gwell trefniadau llywodraethu i ddarlledwyr, er enghraifft drwy Siarter BBC i Gymru. Ar ôl ei sefydlu, bydd gan y Corff Cynghori ar Ddarlledu a Chyfathrebu rôl bwysig i ddarparu arweiniad a chyngor i lywio polisi Llywodraeth Cymru a nodi camau penodol i helpu i wella'r ddarpariaeth o gyfryngau darlledu i Gymru.

*Beth yw barn Llywodraeth Cymru am ddatganoli darlledu?*

Barn Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Cytundeb Cydweithio, yw y dylid datganoli pwerau darlledu a chyfathrebu i Gymru.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd

## Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mawrth 2024

Er mwyn cynorthwyo ei ymchwiliad i ddiwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd, gofynnodd y **Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol** am fewnwelediadau o'r effeithiau ar y diwydiannau creadigol. Hwylusodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfweliadau a grwpiau ffocws gydag artistiaid perfformio a theithiol a gweithwyr proffesiynol creadigol sy'n ymwneud â gwaith trawsffiniol. Manylir ar y canlyniadau yn y papur hwn.

### Y cefndir

Daeth cyfnod pontio Brexit i ben ar 1 Ionawr 2021 ac felly mae dwy flynedd a hanner wedi mynd heibio ers cyflwyno'r rheoliadau newydd ar gyfer gweithio a masnachu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

### Ymgysylltu

Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion 10 cyfweliad ac un grŵp ffocws rhwng 11 Rhagfyr 2023 a 26 Chwefror 2024. Pwrpas y cyfweliadau a'r grŵp ffocws oedd rhoi syniad i'r Pwyllgor o farn a phrofiadau artistiaid perfformio a gweithwyr creadigol sy'n teithio ac yn gweithio'n drawsffiniol.

## Cyfranogwyr

Cymerodd 13 o gyfranogwyr ran yn y cyfweliadau a'r grŵp ffocws. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys artistiaid gwerin, roc ac offerynnol proffesiynol rhyngwladol o Gymru, rheolwyr artistiaid perfformio, gwneuthurwr offerynnau o Gymru, cyfarwyddwr mordeithio o Gymru, hyrwyddwyr cerddoriaeth ryngwladol a gwyliau offerynnol Cymru a chynrychiolwyr o fusnesau diwylliannol a lleoliadau yng Nghymru yn ogystal â sefydliad sy'n eiriol dros artistiaid yn y diwydiant cerddoriaeth.

Mae rhai o'r cyfranogwyr wedi perfformio a theithio yn Ewrop ers i'r rheoliadau newydd ddod i rym tra bod eraill wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i beidio â gwneud hynny.

Cafodd cyfranogwyr eu cyrchu drwy arolwg sgrinio a anfonwyd at dros 35 o artistiaid a bandiau unigol a thros 15 o sefydliadau diwylliannol yng Nghymru.

Cysylltwyd â rhai artistiaid perfformio, ond dewisodd yr artistiaid hynny beidio â chymryd rhan yn yr ymgysylltu, gan awgrymu ei bod yn rhy gynnar i fesur effaith y rheoliadau newydd, yn enwedig gan eu bod wedi dod i rym yn ystod y pandemig.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

## Methodoleg

Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau a grwpiau ffocws ar-lein i alluogi artistiaid o Gymru, sy'n gweithio ar draws Ewrop a thu hwnt, i gymryd rhan.

Trafodwyd y pwyntiau trafod a ganlyn yn ystod y cyfweliadau a'r grŵp ffocws:

1. Yn eich barn chi, pa effaith mae Brexit wedi ei chael ar deithiau trawsffiniol, os o gwbl?

2. A oes agweddau penodol ar y rheolau newydd yr hoffech chi eu trafod?

3. Yn eich barn chi, pa effaith mae Brexit wedi ei chael ar gael gafael ar gyllid a rhwydweithiau, os o gwbl?

4. Ydych chi'n meddwl bod digon o arweiniad a chymorth ar gael i chi ynghylch y berthynas newydd rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd? Pa gymorth ychwanegol a fyddai'n fuddiol i chi?

5. Sut olwg sydd ar ddyfodol eich gwaith trawsffiniol, yn eich barn chi?

6. Pa newidiadau, os o gwbl, hoffech chi eu gweld yn y dyfodol i wella gweithio trawsffiniol ar gyfer y sector diwylliant?

# 1. Crynodeb o'r argymhellion

**Argymhelliad 1.** Seilwaith rheoli hygyrch a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, lle gall artistiaid perfformio a gweithwyr creadigol gael mynediad at gyngor a chymorth ymarferol i reoli a hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol, ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

**Argymhelliad 2.** Canllawiau hygyrch, cywir ar y rheoliadau newydd.

**Argymhelliad 3.** Cymhellion treth neu gyllid gan Lywodraeth Cymru i annog cyfnewid trawsddiwylliannol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 4.** Symleiddio gwaith papur nwyddau ar gyfer artistiaid perfformio a theithiol.

**Argymhelliad 5.** Lleihau cost carnets a rhoi cymhorthdal ar gyfer y blaendal sydd ei angen.

**Argymhelliad 6.** Cytundeb hepgor fisa ar gyfer artistiaid perfformio a theithiol.

**Argymhelliad 7.** Cynorthwyo artistiaid perfformio a theithiol i chwilio am gyfleoedd diwylliannol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 8.** Datblygu a chefnogi cyfleoedd diwylliannol yng Nghymru.

**Argymhelliad 9.** Creu rôl newydd, Comisiynydd Diwylliant Cymru, i ailsefydlu a meithrin partneriaethau a rhwydweithiau newydd gyda'r sector diwylliant yn yr Undeb Ewropeaidd. Gallai'r rôl hon hefyd fod yn gyfle i gefnogi artistiaid perfformio a gweithwyr creadigol yng Nghymru, gan hefyd hyrwyddo agwedd fwy cadarnhaol tuag at y sector diwylliant.

# 2. Y prif themâu

## Prif effeithiau'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd ar ddiwylliant

**1.** Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod y rheoliadau newydd wedi cael effaith negyddol ar eu gwaith trawsffiniol a bod y berthynas newydd rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, o fewn y sector diwylliant, yn berthynas anodd a dan straen.

**2.** Soniodd y cyfranogwyr hefyd am gymhlethdodau ychwanegol nodi'r effaith a gynhyrchir gan y rheoliadau newydd, wrth i'w cyfnod dod i rym ddigwydd yr un pryd ag ansefydlogrwydd y pandemig, argyfwng ariannol ac argyfwng ynni – *"mae'n storm berffaith."*

**3.** Soniodd yr holl gyfranogwyr am effaith tymor byr a hirdymor y berthynas newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd ar yrfaoedd artistiaid perfformio a gweithwyr creadigol yng Nghymru.

**4.** Mynegodd y cyfranogwyr bryder am yr effaith benodol ar ddiwylliant yng Nghymru, ar adeg pan fo mwy o ddiddordeb nag erioed o'r blaen yn y Gymraeg a'i diwylliant.

> *"Mae'n rhwystredig iawn gan fod Cymru wedi mynd drwy newidiadau enfawr mewn hyder yn ei hiaith a'i diwylliant... ac mae bellach yn cael mwy o sylw prif ffrwd yn y cyfryngau. Ond mae cyflwyno hynny ar raddfa ymarferol wedyn yn cael ei rwystro gan yr holl rwystrau chwerthinllyd hyn i geisio cael hynny allan i'r byd, pan fo mwy o ddiddordeb yn awr nag erioed o'r blaen, mewn gwirionedd."*

## Llai o gyfleoedd

Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod llai o wahoddiadau a chyfleoedd i artistiaid perfformio a gweithwyr creadigol o Gymru, o fewn y sector diwylliannol yn Ewrop, ers i'r rheoliadau Brexit ddod i rym.

> *"Yn y math hwn o waith, mae yna uchafbwyntiau ac isafbwyntiau, dyna sut mae pethau wedi bod erioed, dros ddeugain mlynedd o fod*

> *yn gerddor proffesiynol..... ond mae'n eithaf rhyfedd nad oes dim wedi dod i mewn ers Brexit."*

**5.** Mynegodd y cyfranogwyr eu pryderon cynyddol wrth i hyrwyddwyr ddewis hurio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn unig.

> *"Mae pobl yn yr Undeb Ewropeaidd yn meddwl ei bod hi'n rhy anodd gweithio gyda'r Deyrnas Unedig - mae'n ormod o waith papur".*

**6.** Soniodd y cyfranogwyr am rai hyrwyddwyr, hyd yn oed yn y Deyrnas Unedig, yn hurio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn unig.

> *"Mae yna fuddion Brexit… i bobl sydd â phasbortau'r Undeb Ewropeaidd. Mae Prydain wedi colli ei 'grym meddal'."*

**7.** Un o gyflogwyr mwyaf y cyfranogwyr yw gwneuthurwr telynau o Ffrainc. Cyn Brexit, roedd y cyfranogwr yn arfer teithio ledled Ewrop gyda nhw. Ers Brexit, nid yw'r cyfranogwr wedi cael unrhyw waith gan y cwmni.

**8.** Awgrymodd un rheolwr fod ymholiadau trefnu digwyddiadau i artistiaid wedi gostwng 20-30% ers Brexit a Covid-19.

**9.** Dangosodd un cyfranogwr yr effaith benodol ar artistiaid ifanc. Er enghraifft, yn Nenmarc, mae angen i artistiaid ennill isafswm gofyniad cyn y gallant berfformio heb fisa.

**10.** Dangosodd un gwneuthurwr offerynnau cerdd bwysigrwydd arddangos ei gynnyrch mewn digwyddiadau yn y diwydiant cerddoriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Ni fu hynny'n bosibl ers Brexit.

**11.** Esboniodd rhai cyfranogwyr sut mae'r farchnad ddiwylliannol y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd yn parhau, ac mewn rhai achosion wedi ehangu - er enghraifft, yn Unol Daleithiau America. Fodd bynnag, maent yn tueddu i fod yn farchnadoedd cymhleth a drutach ac nid oes ganddynt yr un apêl â marchnad yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer rhai artistiaid perfformio a theithiol.

**12.** Dywedodd cyfranogwyr eraill y dylai artistiaid perfformio a theithiol fod yn ystyried cyfleoedd newydd y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd.

## Goblygiadau ariannol

**13.** Cyfeiriodd yr holl gyfranogwyr at oblygiadau ariannol y rheoliadau newydd.

**14.** Soniodd llawer o gyfranogwyr am gostau ychwanegol carnets, os oes eu hangen, a'r blaendal sy'n 30 i 40% o werth yr eitem(au) sy'n cael eu cario.

**15.** Eglurodd y cyfranogwyr bwysigrwydd nwyddau fel ffrwd refeniw ar gyfer artistiaid perfformio a theithiol. Oherwydd costau cludo, mae rhai artistiaid yn cyflogi busnesau yn yr Undeb Ewropeaidd i gynhyrchu eu nwyddau yn lleol, i arbed gorfod cludo eu nwyddau. Mae hyn yn cael effaith amlwg ar fusnesau yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru.

> *"Os na allwch chi wneud hynny [gwerthu nwyddau tra ar daith] neu os mai dim ond ychydig bach y gallwch chi fynd gyda chi oherwydd y gost, yna bydd yn ergyd fawr iawn i'r hyn rydych chi mewn gwirionedd yn mynd adref gyda chi o ganlyniad i'r daith honno."*

**16.** Dangosodd rhai cyfranogwyr yr effaith ar ffyrdd o weithio, yng Nghymru a'r Undeb Ewropeaidd, wrth i hyrwyddwyr ei chael hi'n anodd ymrwymo i drefniadau, gan gynnig cyfrannau o'r elw yn hytrach na ffioedd gwarantedig i artistiaid perfformio.

> *"Mae hyrwyddwyr [yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru] yn llai parod i fentro ar ffioedd mwy.....gofynnir i chi yn amlach o lawer i dderbyn cyfrannau.....fel cyfran o'r elw gyda nifer o gynulleidfaoedd. Felly rydych chi'n cymryd rhywfaint o elw'r swyddfa docynnau yn hytrach na ffi warantedig. Mae ffordd hollol newydd o weithio yn datblygu.....mae'n sîn anoddach nag oedd hi o'r blaen."*

**17.** Dangosodd un cyfranogwr sut mae ei fusnes cynhyrchu offerynnau cerddorol wedi gweld gostyngiad mewn gwerthiant yn yr Undeb Ewropeaidd, yn bennaf oherwydd costau allforio yn ogystal â mwy o anhawster wrth fewnforio deunyddiau o'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer cynhyrchu.

**18.** Soniodd cyfranogwr arall am golledion ariannol, oherwydd ffioedd ychwanegol, wrth fasnachu gyda chwmni yn Iwerddon.

**19.** Esboniodd rhai cyfranogwyr fod cael gafael ar unrhyw gyllid y bwriedir iddo gymryd lle cyllid yr Undeb Ewropeaidd wedi dod yn faes cystadleuol iawn ac nid yw terfynau amser byr yn rhoi amser i ystyried posibiliadau a chyfleoedd yn eu cyfanrwydd.

## Gweinyddiaeth

**20.** Soniodd yr holl gyfranogwyr am y gwaith papur cynyddol a llafurus, o ganlyniad i'r rheoliadau newydd, gydag artistiaid a gweithwyr creadigol yn gorfod treulio mwy o amser ar weinyddu a llai ar greadigrwydd.

> *"Dw i ddim yn meddwl y gallwn ni ddiystyru arwyddocâd yr effaith o orfod deall a chydymffurfio â hynny i gyd, [y gwaith papur].....mae'n cymryd llawer iawn o amser ac mae'n gur pen go iawn."*

**21.** Soniodd y cyfranogwyr am effaith mwy o waith papur ar eu creadigrwydd.

> *"Yn amlwg, mae yna eithriadau, ond ar y cyfan, mae [y gwaith papur ychwanegol] wir yn effeithio ar feddylfryd artist, ac mae hynny'n effeithio arnoch chi o safbwynt creadigol hefyd, nid dim ond yn ymarferol."*

**22.** Soniodd rhai cyfranogwyr - artistiaid sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig – eu bod yn cael cynnig gwaith munud olaf yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi dod yn fwyfwy anodd ei dderbyn, oherwydd y rheoliad hyd at 90 diwrnod o fewn unrhyw 180 diwrnod, a'r gwaith papur gweinyddol ychwanegol.

**23.** Soniodd llawer o'r cyfranogwyr am eu rhwystredigaeth gyda'r system bost a danfon nwyddau, ers Brexit, mewn perthynas â nwyddau.

**24.** Esboniodd un cyfranogwr, sy'n rhedeg label recordio, sut mae rhai cwmnïau yn yr Undeb Ewropeaidd wedi gwrthod delio â nhw gan fod y gwaith papur wedi dod yn rhywbeth mor feichus.

## Materion teithio a ffiniau

**25.** Cododd yr holl gyfranogwyr bryderon am y cyfyngiad ar arosiadau 90 diwrnod o fewn 180 diwrnod. Mae hyn yn effeithio ar artistiaid perfformio a gweithwyr creadigol mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, gallai cerddor gefnogi

sawl taith wahanol yn ystod un arhosiad yn yr Undeb Ewropeaidd - nid yw hyn yn bosibl erbyn hyn.

> *"Dwi'n besimistaidd… Mae'n gymaint o gam yn ôl o lle'r oeddem ni, pan allwn i lwytho fy nghar gyda fy offerynnau a gwneud beth bynnag roeddwn i eisiau ei wneud yn y bôn mewn 27 gwlad arall, sydd yn gyffredinol yn ganolbwynt diwylliannol y byd."*

**26.** Esboniodd un cyfranogwr fod 80% o'i waith yn arfer bod yn yr Undeb Ewropeaidd, cyn Brexit. Mae arhosiad o 90 diwrnod o fewn 180 diwrnod yn gwneud hyn yn amhosibl, gan arwain at golli enillion.

**27.** Rhoddodd cyfranogwyr eraill enghreifftiau o orfod gwrthod gwaith yn yr Undeb Ewropeaidd, oherwydd y rheolau hyd at 90 diwrnod o fewn unrhyw 180 diwrnod.

**28.** Esboniodd rhai cyfranogwyr sut mae'r rheolau hyd at 90 diwrnod o fewn unrhyw 180 diwrnod hefyd yn effeithio ar eu trefniadau teithio personol - er enghraifft, gwyliau teuluol.

**29.** Soniodd y cyfranogwyr am heriau teithio i'r Undeb Ewropeaidd gydag offerynnau cerdd a'r dryswch parhaus ynghylch gofynion carnet.

**30.** Dangosodd llawer o gyfranogwyr sut maent yn cael offerynnau cerdd yn lleol wrth berfformio yn yr Undeb Ewropeaidd. Nid yw hyn yn bosibl bob amser.

**31.** Rhoddodd rhai cyfranogwyr enghreifftiau o artistiaid teithiol yn teithio i'r Undeb Ewropeaidd yn eu cerbyd personol, gan gario eu nwyddau eu hunain yn unig, yn gorfod prynu tocyn cludo nwyddau, sy'n llawer mwy costus.

**32.** Mae'r newidiadau yn effeithio'n fawr ar gerddorfeydd, yn enwedig y rheolau masnach arforol (cabotage), lle caniateir tri stop yn unig i gerbyd dros 3.5 tunnell, cyn gorfod dychwelyd i'r Deyrnas Unedig.

**33.** Soniodd llawer o'r cyfranogwyr am y diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rheoliadau newydd gan swyddogion y ffin yn y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, dywedwyd wrth artistiaid yn Dover bod angen carnets ar gyfer eu gitarau, ond nid oedd hynny'n wir.

> *"Mae angen i swyddogion y ffin o fewn y Deyrnas Unedig gael eu hyfforddi'n well...maen nhw'n amlwg yn parhau i fod wedi drysu ynghylch y rheolau."*

**34.** Soniodd rhai cyfranogwyr, sy'n hyrwyddo gwyliau rhyngwladol yng Nghymru, am y croeso anffodus mae masnachwyr o'r Undeb Ewropeaidd sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig yn ei gael weithiau, gan gynnwys yng Nghymru.

> *"Dylai fod yn glir - maen nhw [artistiaid Ewropeaidd] yn dod i mewn ar gyfer gweithgareddau o'r math yma....ac rydyn ni eisiau annog hynny a'i wneud yn lle cyfeillgar i fasnachu."*

**35.** Soniodd cyfranogwyr eraill am wynebu'r un dryswch ar ffiniau'r Undeb Ewropeaidd hefyd - er enghraifft, yn Sweden yn ddiweddar.

## Diffyg hyder

**36.** Rhannodd y cyfranogwyr eu nerfusrwydd ynghylch y gwaith papur gweinyddol a goblygiadau *"gwneud pethau'n anghywir"*, yn enwedig ymhlith artistiaid perfformio ifanc a newydd.

> *"Un o'r pethau mwyaf sydd wedi digwydd yw'r ergyd i hyder y fasnach sy'n mynd y ddwy ffordd, ers Brexit. Yn sicr mae diffyg hyder yn y broses."*

**37.** Dangosodd rhai cyfranogwyr, yn enwedig artistiaid sy'n dod i'r amlwg, yr her o orfod cymryd cyfrifoldeb am gymaint o rolau.

> *"Rydyn ni'n gwneud llawer ein hunain, rydyn ni'n trefnu teithiau, ni yw'r asiant, ni yw'r rheolwr ac mae hyd yn oed y syniad o ddysgu'r holl bethau hynny a sicrhau eich bod chi'n eu gwneud nhw'n iawn mor llethol. ... Mae'n eich digalonni chi oni bai ei fod yn werth yr holl drafferth."*

**38.** Esboniodd rhai cyfranogwyr sut mae'r rheoliadau newydd wedi cyfyngu ar eu dyheadau i ddatblygu fel artistiaid rhyngwladol.

> *"Yn y tymor hir mae'n cyfyngu ar uchelgais rhywun, mae cymaint o fiwrocratiaeth cyn i rywun deithio ac ystyried teithio."*

**39.** Soniodd llawer o'r cyfranogwyr am y diffyg eiriolwyr dros artistiaid perfformio sy'n dod i'r amlwg i helpu i ddatblygu a hyrwyddo'r diwydiant cerddoriaeth ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

> *"Dwi'n gweld fy hun fel artist eithaf breintiedig - dwi'n gerddor ac mae gen i dîm mawr o bobl tu ôl i mi. Pe na bai gen i reolwyr yn fy nghefnogi.......rydw i'n amau y buaswn i ar goll yn llwyr mewn byd o waith papur ac ni fyddwn i'n ei wneud."*

**40.** Rhannodd rhai cyfranogwyr bryder dros genedlaethau'r dyfodol yn y sector diwylliant, yn benodol yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.

**41.** Dywedodd y cyfranogwyr fod gostyngiad amlwg yn y cyfleoedd sydd ar gael i feithrin cerddorion ifanc yng Nghymru, yn enwedig y rhai o gefndir difreintiedig.

**42.** Cymharodd rhai cyfranogwyr y cyfleoedd sydd ar gael iddynt i berfformio o fewn yr Undeb Ewropeaidd, o oedran ifanc gyda'r cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael i gerddorion ifanc heddiw.

> *"Roedd yn llawer haws mynd dramor i berfformio. Nawr mae'r cyfan yn llawn biwrocratiaeth... mae'n mynd i dorri calonnau pobl ifanc cyn iddynt ddechrau, o'r ddwy ochr. Mae hynny'n drist."*

## Rhwydweithiau a phartneriaethau sy'n prinhau

**43.** Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod y rheoliadau newydd wedi rhoi straen ar bartneriaethau a rhwydweithiau presennol gyda'r Undeb Ewropeaidd.

> *"Mae Cymru'n eithaf da gyda chelfyddydau cymunedol. Mae gennym ni lefel reit dda o brofiad yn y sector, ac roedd gallu rhannu hynny, a dysgu.....wel, mae hynny wedi mynd."*

**44.** Awgrymodd un cyfranogwr, sy'n gyfarwyddwr gŵyl gerddoriaeth ryngwladol sy'n cael ei chynnal yng Nghymru, y gallai'r rheoliadau newydd gael effaith ar

gefnogaeth noddwyr rhyngwladol i ddigwyddiadau yng Nghymru. Byddai hynny yn ei dro yn effeithio ar gyfleoedd i artistiaid o Gymru.

> *"Rydw i'n ofni y bydd y rhwystrau yn gwneud Cymru'n llai apelgar i noddwyr rhyngwladol. Pam fuasen nhw'n noddi gŵyl yng Nghymru os yw'n costio chwarter y pris iddyn nhw wneud yr un peth mewn mannau eraill yn Ewrop?"*

**45.** Soniodd y cyfranogwyr am eu pryder am effaith rhwydweithiau a phartneriaethau coll ar Gymru, o ganlyniad i'r rheoliadau newydd.

> *"Rydw i'n poeni bod Cymru'n dod yn llai apelgar i sefydliadau a chwmnïau sydd wedi bod mor gefnogol yn y gorffennol."*

**46.** Dywedodd un cyfranogwr fod tri o'i asiantau yn ei chael hi'n fwyfwy anodd ei gefnogi, gan fod eu rhwydweithiau Ewropeaidd *"wedi diflannu."*

**47.** Esboniodd y cyfranogwyr effaith economaidd y rheoliadau newydd ar fusnesau yng Nghymru. Er enghraifft, mae rhai cwmnïau offerynnau cerdd yng Nghymru yn wynebu heriau cynyddol wrth brynu offerynnau o'r Undeb Ewropeaidd, sydd yn ei dro yn cyfyngu ar werthiant offerynnau cerdd yng Nghymru.

## Effaith ar greadigrwydd

**48.** Mynegodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr bryder am effaith rhwydweithiau a phartneriaethau gyda'r Undeb Ewropeaidd sy'n gwanhau, o ran creadigrwydd o fewn y sector diwylliant yng Nghymru,

> *"Mae'n ddiwylliannol bwysig rhannu a chyfnewid syniadau artistig. Mae'n ffordd o ddod â gwledydd a diwylliannau at ei gilydd."*

**49.** Dangosodd llawer o gyfranogwyr fanteision a gwerth cydgynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a chwmnïau o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

> *"Rydych chi'n colli'r cyffro hwnnw o rannu syniadau.....y gallu i sefyll ochr yn ochr ag artistiaid eraill a diwylliannau eraill a chael y parch hwnnw tuag at eich gilydd."*
>
> *"Rydyn ni wedi gadael Ewrop Greadigol ac mae hynny'n bechod go iawn oherwydd doedd dim rhaid i ni o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac mae hynny'n amlwg yn mynd i olygu llai o gyllid, a llai o gyfleoedd i gael partneriaethau".*

**50.** Mae rhai cyfranogwyr yn pryderu am y gostyngiad yn nifer y cerddorion Ewropeaidd ac artistiaid perfformio eraill sy'n teithio i'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, i astudio a pherfformio - *"Rydyn ni ar ein colled y ddwy ffordd."*

